# Adroddiad Blynyddol 2019-20

Comisiynydd Plant Cymru

Children's Commissioner for Wales

| | | |
|---|---|---|
| 01 | Rhagair gan Gomisiynydd Plant Cymru | 04 |
| 02 | Uchafbwyntiau eleni | 08 |
| 03 | Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau | 12 |
| 04 | Barn ein paneli ymgynghorol | 59 |
| 05 | Y Ffordd Gywir | 62 |
| 06 | Ein 'cerdyn adroddiad': pa gynnydd mae hawliau plant wedi'i wneud yng Nghymru yn 2019-20? | 70 |
| 07 | Argymhellion allwedol | 110 |
| 08 | Prosesau sefydliadol | 116 |



"Yn awr, yn fwy nag erioed, mae gen i deimlad gwirioneddol o ddyletswydd i sicrhau ein bod ni'n dod yn llais i'r di-lais ac yn sicrhau bod amddiffyn hawliau pob plentyn yn ganolog i bob penderfyniad gan ein Llywodraeth a'n gwasanaethau cyhoeddus."

# Rhagair

## Fel sefydliad, byddwn i'n hoffi meddwl bod gennym ni agwedd gadarn o ran cadw llygad ar y gorwel a rheoli risg; ond nid yw pandemig erioed wedi cael ei gynnwys ar un o'n cofrestrau risg, tan yn gynharach eleni. Mae ein bywydau a'n ffyrdd o weithio wedi cael eu troi wyneb i waered, ac mae'n drasiedi bod bywydau wedi cael eu colli. Er bod yr adroddiad hwn yn trafod y cyfnod yn union cyn i'r pandemig ein taro yma yng Nghymru, ni fyddai'n briodol i mi beidio â chyfeirio at ei arwyddocâd.



O bersbectif gwaith, mae wedi golygu ein bod wedi gorfod gohirio cyhoeddi darnau allweddol o waith, gan gynnwys un ar rôl a swyddogaeth cynghorau ysgol, a phrosiect arall ar effeithiolrwydd byrddau partneriaeth rhanbarthol. Mae wedi golygu bod rhaid i ni ymateb at unwaith i faterion critigol sy'n effeithio ar fywydau plant o dan amodau'r cyfnod clo, a chytuno ar ddarnau newydd allweddol o waith ar gyfer ein rhaglen waith yn 2020/21, gan gynnwys arolwg anferth o brofiadau plant yn ystod y cyfyngiadau symud. I blant a phobl ifanc ledled Cymru, mae hyn wedi golygu newidiadau anhygoel i'w bywydau beunyddiol, a byddwn ni'n teimlo effaith hynny am flynyddoedd. Ac eto, er y bydd ôl-effeithiau'r pandemig yn sylweddol i fywydau llawer o bobl, bydd yr argyfwng ei hun yn mynd heibio, a bydd gwaith y swyddfa hon yn fwy hanfodol nag erioed.

>>>

**Yn awr, yn fwy nag erioed, mae gen i deimlad gwirioneddol o ddyletswydd i sicrhau ein bod ni'n dod yn llais i'r di-lais ac yn sicrhau bod amddiffyn hawliau pob plentyn yn ganolog i bob penderfyniad gan ein Llywodraeth a'n gwasanaethau cyhoeddus.**

I ddod â hynny'n ôl i'r cyfnod mae'r adroddiad hwn yn ei gwmpasu – 1 Ebrill 2019 tan 31 Mawrth 2020 – mae ein ffocws cadarn ar sicrhau bod ein holl waith yn cael ei yrru gan lais a phrofiadau plant i'w weld yn y cynnwys sy'n dilyn. Unwaith eto rwy'n cael bod creadigrwydd, penderfyniad a gwaith caled fy nhîm bychan yn ysgubol, ac wedi cyflawni canlyniadau amlwg eto i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

**Eleni fe gychwynnon ni ar flwyddyn 1 o'n cynllun 3-blynedd diweddaraf, ac rydyn ni'n gweithio i gyflawni set newydd o uchelgeisiau:**

1. **Cymru: gwlad lle mae hawliau'n cael eu gwireddu.**
2. **Amddiffyn hawliau, ble bynnag rydych chi.**
3. **Dysgu, deall a phrofi hawliau.**
4. **Bod yn atebol i blant yng Nghymru.**

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu ein cynnydd ar flwyddyn gyntaf y cynllun hwnnw.


>>>

Dyma'r adroddiad blynyddol olaf y byddaf fi'n ei gyhoeddi yn ystod Tymor Senedd 2016 – 2021. Mae'n Dymor sydd wedi bod yn llawn ansicrwydd o'r dechrau i'r diwedd. O ansicrwydd Brexit, i ddyraniadau cyllideb blynyddol yn lle cyllidebau tymor hwy, a phenllanw pandemig y Coronafeirws, bu cyfres o rwystrau ac argyfyngau ar hyd y tymor yma. Mae hynny wedi effeithio ar y cynnydd a wnaed ar rai materion pwysig o safbwynt plant a hawliau plant.

Er gwaethaf y rhwystrau hyn, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd carreg filltir bwysig o safbwynt hawliau plant yn cael ei gwreiddio yng nghyfraith Cymru. Mae Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol)(Cymru) 2020 yn rhoi'r un amddiffyniad i blant ag i oedolion rhag cosb gorfforol, sy'n aml yn cael ei alw'n smacio. Mae hyn yn dilyn 20 mlynedd o ymgyrchu gan lawer, gan gynnwys Julie Morgan AS, a arweiniodd lwybr y Bil fel Dirprwy Weinidog, ac roedd hwn yn nod y cyfeiriais ato'n gyhoeddus ar ddiwrnod fy mhenodi'n Gomisiynydd Plant yn 2015. I roi ffocws i feddyliau, rwyf wedi hoelio sylw yn fy argymhellion ar y newidiadau mwyaf pwysfawr, realistig y dylai ein Llywodraeth eu cyflwyno, ac y mae'n rhaid iddi eu cyflwyno cyn diwedd ei Thymor ym mis Mai 2021. Wrth i ni ffurfio'n dyfodol wedi'r pandemig, rwyf hefyd wedi cynnwys meysydd ffocws ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru. Rydyn ni'n gwybod beth yw'r heriau; does dim amser i bendroni, mae'n bryd gweithredu, a hynny'n bendant a dewr.

**Sally Holland**
Comisiynydd Plant Cymru

# Uchafbwyntiau eleni



# Ein blwyddyn mewn rhifau

**Dyma beth gyflawnodd 26 aelod o staff yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2020**

## 15,504
Ymgysylltu â 15,504 o blant a phobl ifanc ledled Cymru mewn digwyddiadau, gweithdai a chyfarfodydd

## 95
Gweithio gyda 95 o ysgolion uwchradd led-led Cymru fel rhan o'n cynllun Llysgenhadon Uwchradd

## 5
Creu 5 adroddiad thematig ar bynciau'n amrywio o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i werthusiad o'n cynllun strategol tair blynedd blaenorol

## 6
Lansio 6 adnodd hawliau dwyieithog sydd ar gael am ddim i ysgolion a sefydliadau, gan gynnwys her hawliau i Sgowtiaid a Geidiau, adnoddau hawliau i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, gwersi hawliau a chân newydd ar gyfer plant 3-7 oed, pecyn offer actifyddiaeth a Hwb Gwybodaeth Coronafeirws.

## 7,404
Sicrhau 7,404 o ymatebion gan blant a phobl ifanc a 360 o ymatebion gan athrawon i'r ail arolwg hawliau addysg gynhalion ni

## 475 +219
Hyfforddi 475 o blant a 219 o staff addysgu i ddod yn llysgenhadon hawliau

## 606
Cynyddu aelodaeth ein Llysgenhadon Gwych i 606 o ysgolion cynradd ledled Cymru

## 627
Rheoli 627 o achosion trwy ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor

## 28
Ymateb i o leiaf 28 o ymgyngoriadau'r Cynulliad, Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill, gan greu newid amlwg mewn nifer o bolisïau newydd a deddfwriaeth

## 200
Cyflwyno hyfforddiant i 200 o weithwyr blynyddoedd cynnar proffesiynol ar ein cynnig newydd i leoliadau blynyddoedd cynnar, Bitw Bach

## 154
Gweithio gydag o leiaf 154 o weithgorau a sefydliadau ar amrywiaeth o faterion hawliau plant

## 534
Sicrhau sylw o leiaf 534 o weithiau mewn print a darllediadau ar gyfer y sefydliad, fel bod dros 10 miliwn o gyfleoedd i ddarllen neu glywed am ein gwaith

# Prif gyflawniadau

## Mae ein prif gyflawniadau rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 yn cynnwys:

- Croesawu'n gynnes Gydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) – rhywbeth mae'r Comisiynydd wedi bod yn ymgyrchu i'w gyflawni ers ei diwrnod cyntaf yn y swydd.
- Sicrhau canllawiau gwrthfwlio statudol i ysgolion yng Nghymru, o ganlyniad uniongyrchol i'n gwaith polisi a dylanwadu.
- Cefnogi mwy o gyrff cyhoeddus blaenllaw i fabwysiadu dull seiliedig ar hawliau plant, gan gynnwys holl fyrddau iechyd Cymru.
- Ymddangosiad y Comisiynydd gerbron y Senedd Ieuenctid yn Siambr y Senedd, i drafod y cwricwlwm newydd a'n gwaith ar iechyd meddwl.
- Arwain dathliadau 30 mlynedd Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru.
- Cynnal hyfforddiant hawliau plant ledled Cymru, gan gynnwys 200 o weithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar.
- Cynnal sesiynau hyfforddiant arloesol ar hawliau gyda thadau a'u plant yng Ngharchar Ei Mawrhydi Berwyn.
- Gweithio gydag 13 o ysgolion i greu adnoddau newydd ar hawliau plant ar gyfer y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion.
- Ymweld â phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru i graffu ar waith rhyngasiantaeth gyda phlant.
- Cynnal arolwg o fwy na 7000 o blant a 300 o athrawon ar gyfer ein gwaith Ffordd Gywir i Addysg.


>>>

# Prif gyflawniadau

## Ac o fewn ein sefydliad:

- Cefnogi llwybrau pobl ifanc at gyflogaeth trwy gyflogi interniaid a hyfforddai, a chwaraeodd ran hanfodol yng ngweithrediad ein cynllun gwaith.
- Sefydlu grŵp o 'Ryfelwyr Llesiant' fel rhan o'n hymrwymiad i adduned Amser i Newid Cymru. Dyma beth ddywedodd aelod o staff am y gwaith:

**"Mae ymrwymiadau ac addunedau yn bwysig, ond pwysicach fyth yw sut maen nhw'n cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. O'm profiad fy hun galla i ddweud eleni bod y sefydliad wedi creu man diogel oedd yn caniatáu i mi rannu diagnosis iechyd meddwl, ac mae hynny wedi bod yn broses gadarnhaol iawn... Rwy'n ddiolchgar i bawb yn y sefydliad am eu cefnogaeth ac rwy'n teimlo bod hyn wedi agor llu o sgyrsiau eraill iach a gonest ar draws y sefydliad."**


...gweithio'n ddiflino i hybu a diogelu hawliau plant yng Nghymru, gyda'r nod o sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

## Crynodeb o'r gwerthusiad o'r cynllun tair blynedd cyntaf

Ym mis Rhagfyr 2019 fe gyhoeddon ni **adolygiad** o'n cynllun gwaith o 2016-2019. Oddi mewn i'r adroddiad hwnnw, fe dynnon ni sylw at y gwelliannau a wnaed o fewn ein sefydliad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein huchelgeisiau.

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

## Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r tîm wedi....

### Cyfranogaeth

Ymweld â 361 o grwpiau, ysgolion a chlybiau ers 2016

**361**

**29,850**
Gwrando ar 29,850 o blant a phobl ifanc

Hyfforddi o leiaf 465 o ysgolion i fod yn Lysgenhadon hawliau

**465**

### Polisi a Materion Cyhoeddus

Ymateb i 63 o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth DU

**63**

Mynychu 325 o weithgorau ers 2017

**325**

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

## Cynlluniau

**10**

10 o Lysgenhadon Cymunedol

**50%**

50% o ysgolion uwchradd Cymru nawr yn rhan o'n cynllun Llysgenhadon Uwchradd

Cefnogi a hyfforddi 57 o aelodau i'r panel ymgynghorol pobl ifanc

**57**

Mae 39% o ysgolion Cynradd Cymru yn rhan o'n cynllun Llysgenhadon Gwych

**39%**

Creu a chyhoeddi 30 o adnoddau i ysgolion a grwpiau cymunedol ar bynciau megis hawliau, gwahaniaethu a thlodi

**30**

**9**

Tasg Arbenning wedi'u creu

## Cyfathrebu

Cyhoeddi 26 o adroddiadau ac ymchwiliadau

**26**

Sicrhau 1840 o ddarnau o sylw mewn darllediadau a phrint

**1840**

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

**Ymchwiliadau a Chyngor**

**979**
Mae 979 o rieni wedi cysylltu gyda ni

**106**
Mae 106 o blant wedi cysylltu gyda ni'n uniongyrchol am gymorth

**Sally**

Cwrdd yn unigol gyda 56 o Weinidogion Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol Llywodraeth y DU

**56**

**1,753**
Cefnogi 1753 o bobl ifanc

Mae 222 o bobl broffesiynol wedi cysylltu gyda ni

**222**

Rhoi tystiolaeth i 15 o bwyllgorau'r Cynulliad

**15**

Cyfarfod ar gyfartaledd gyda 100 o grwpiau o blant a phobl ifanc am drafodaethau wyneb-yn-wyneb yn flynyddol

**100**

Mae hawl gan bob plentyn sydd yng ngofal yr awdurdod lleol, sydd wedi'u henwi ar y gofrestr amddiffyn plant, neu yr aseswyd bod angen gofal neu gefnogaeth arall arnynt, i gael cefnogaeth eiriolydd proffesiynol annibynnol i'w helpu i gyfranogi mewn penderfyniadau ynghylch eu bywydau, a dylid mynd ati'n rhagweithiol i gynnig y gefnogaeth honno iddyn nhw

Sefydlodd Cymru ei Senedd Ieuenctid ei hun, a etholwyd yn ddemocrataidd, a eisteddodd am y tro cyntaf yn 2019, gan roi llais canolog mewn penderfyniadau i bobl ifanc

Mae cynnydd yn digwydd o safbwynt datblygu dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a iechyd meddwl, gan sicrhau y bydd plant 3-16 oed yn dysgu am iechyd a llesiant yn y cwricwlwm newydd ac yn cael cefnogaeth i'w iechyd meddwl yn eu lleoliad addysg

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ym mis Ebrill 2016, ac mae'n gofyn bod pawb sy'n gweithio o dan ei dyletswyddau yn rhoi sylw dyledus i erthyglau CCUHP

Cyflwynwyd Bil i roi amddiffyniad cyfartal i blant yn erbyn cosb gorfforol, ac mae'n debygol o ddod yn gyfraith yn gynnar yn 2020

Gall plant sy'n gadael gofal gael mynediad i gronfa Dydd Gŵyl Dewi i'w helpu gyda phethau pwysig fel adnoddau addysg a hyfforddiant, cyfarpar gwaith, gwersi gyrru a thai, ac ni fydd angen bellach iddyn nhw dalu biliau treth y cyngor nes eu bod yn 25 oed. Mae'r cyllid wedi cael ei estyn fel bod pawb ohonynt yn cael cefnogaeth ymgynghorydd personol hyd at 25 oed os bydd angen hynny arnyn nhw

Cyflwynwyd cyfraith newydd sy'n cryfhau ymhellach ymrwymiad Cymru i hawliau plant o dan CCUHP, gyda Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymestyn y gallu i bobl ifanc 16 ac 17 oed i bleidleisio mewn rhai etholiadau yng Nghymru

Mae cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei ddatblygu, a fydd yn gofyn bod pob plentyn 3-16 oed yn dysgu am eu hawliau

Mae'r canllawiau gwrthfwlio wedi cael eu hadnewyddu ac yn fwy seiliedig ar hawliau, mae'n defnyddio tystiolaeth uniongyrchol gan blant, a bydd yn galw am fwy o weithredu cadarnhaol gan ysgolion.

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau

## Blwyddyn 1 o'n cynllun tair blynedd newydd (2019–2022)

Bob tair blynedd mae'r Comisiynydd yn cyhoeddi cynllun tair blynedd, yn amlinellu ar beth byddwn ni'n gweithio i wella cyfleoedd bywyd plant yng Nghymru. Datblygwyd ein cynllun **diweddaraf**, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, o **dystiolaeth ymchwil** gyfredol am fynediad plant at eu hawliau yng Nghymru a'n **hymgynghoriad** ein hunain gyda phlant ac oedolion Cymru.

Ar ôl siarad â mwy na 10,000 o blant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw ac yn gweithio drostyn nhw, ac adolygu'r dystiolaeth orau sydd ar gael, fe nodon ni bedair uchelgais newydd i'r tîm eu cyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf, sef:

1. **Cymru: gwlad lle mae hawliau'n cael eu gwireddu.**
2. **Amddiffyn hawliau, ble bynnag rydych chi.**
3. **Dysgu, deall a phrofi hawliau.**
4. **Bod yn atebol i blant yng Nghymru.**

Cewch ddarllen copi o'n cynllun tair blynedd **yma**.

Fel rhan o'r cynllun hwnnw fe wnaethon ni amlinellu pa brosiectau bydden ni'n eu cwblhau ym Mlwyddyn 1 o'r cynllun, 2019/20, a beth fyddai ffocws ein gwaith o ddydd i ddydd eleni.

# Cymru: gwlad lle mae hawliau'n cael eu gwireddu

## Beth yw'r broblem soniodd plant a phobl ifanc wrthyn ni amdani?

Mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn dal heb ddiwallu anghenion ein plant a'n pobl ifanc yn effeithiol. Mae'n rhaid i blant a'u teuluoedd gael hyd i ffordd trwy systemau cymhleth, ac yn aml dydyn nhw ddim yn cael help oherwydd eu bod nhw ddim yn ffitio i gategorïau twt neu dydyn nhw ddim yn cael help nes eu bod nhw'n wynebu argyfwng. Mae hon yn broblem arbennig yn ein gwasanaethau iechyd meddwl a'n gwasanaethau plant anabl. Roedd hon yn neges gref gan bobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol yn ein hymgynghoriad.

# Cymru: gwlad lle mae hawliau'n cael eu gwireddu

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

### Prosiect

Mynd ati i herio'r rhai sy'n gyfrifol am ein gwasanaethau cyhoeddus yn genedlaethol ac yn lleol er mwyn sicrhau bod ein systemau'n cydweithio er mwyn ymateb i anghenion plant a'u teuluoedd – yn arbennig mewn perthynas â iechyd meddwl ac anabledd.

### Allbynnau

Yn rhy aml rydyn ni'n clywed am sefyllfaoedd lle mae gweithwyr proffesiynol iechyd, gofal cymdeithasol ac eraill (weithiau'n llythrennol) yn dadlau dros bennau plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth; pan fyddan nhw'n methu cytuno pwy sy'n gyfrifol am eu gofal.

Fel rhan o brosiect allweddol eleni buon ni'n ymweld â phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru, sef y cyrff sy'n gyfrifol am ddod â gwasanaethau ynghyd yn rhanbarthol (iechyd a gofal cymdeithasol yn bennaf) i wasanaethu anghenion eu poblogaeth leol.

Penllanw ein gwaith oedd adroddiad – **Dim Drws Anghywir** – lle rydyn ni'n pwyso ar Lywodraeth Cymru, y GIG, comisiynwyr iechyd a gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol a llawer o bobl eraill i fabwysiadu dull gweithredu 'dim drws anghywir' ar gyfer plant ag anghenion cymhleth. Mae dull gweithredu 'dim drws anghywir' yn golygu, beth bynnag yw'r rhesymau am drallod plentyn, pan fyddan nhw'n gofyn am help, ddylen nhw byth glywed eu bod nhw wedi dod i'r lle anghywir, neu deimlo eu bod nhw wedi curo ar y 'drws anghywir'. Mae'r adroddiad hefyd yn ymdrin â rhai materion gweithdrefnol cysylltiedig â llywodraethiant ac ariannu'r Byrddau, ac yn galw am lety preswyl newydd i blant ag anghenion cymhleth yng Nghymru.

# Cymru: gwlad lle mae hawliau'n cael eu gwireddu

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

### Prosiect

Byddwn ni'n gweithio gyda chyrff cyhoeddus, gan gynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r heddlu i sicrhau eu bod nhw'n defnyddio hawliau plant i dywys eu gwaith gyda phlant, gan ddefnyddio ein fframwaith 'Y Ffordd Gywir'.

### Allbynnau

Buon ni'n gweithio gyda chyrff cyhoeddus blaenllaw i'w helpu i weithredu dull seiliedig ar hawliau plant. Roedd hyn yn cynnwys Heddlu De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a Bro Morgannwg a'r holl Fyrddau Iechyd.

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, cynhalion ni Seminar Iechyd Plant ar gyfer yr holl Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd, ym mis Gorffennaf 2019. Roedden ni'n falch dros ben bod yr holl Fyrddau Iechyd a'r rhan fwyaf o'r Ymddiriedolaethau wedi gallu bod yn bresennol ar y diwrnod, lle bu'r Byrddau a'r Ymddiriedolaethau'n rhannu'r gwaith maen nhw wedi bod yn ei wneud i weithio tuag at ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn eu sefydliad.

Crëwyd argraff arnon ni gan y gwaith roedd sawl un o'r Byrddau a'r Ymddiriedolaethau wedi'i wneud, oedd yn cynnwys digwyddiadau gwrando ar raddfa fawr, gallu dangos sut roedd y farn a glywsant wedi dylanwadu ar bolisïau, a chynnwys plant a phobl ifanc yn weithredol wrth gyd-gynhyrchu polisïau.

Gallwch chi ddarllen mwy am waith y byrddau iechyd yn rhoi'r ffordd gywir ar waith ar dudalen 64.

# Cymru: gwlad lle mae hawliau'n cael eu gwireddu

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

### Prosiect

Byddwn ni'n gweithio gyda'r llywodraeth ar gyfleoedd i estyn hawliau plant yn y gyfraith, gan gynnwys gwaith pellach i ymgorffori CCUHP yng nghyfraith gwlad Cymru.

### Allbynnau

Mae'r swyddfa wedi cael ei chynrychioli yng Ngrŵp Llywio Cryfhau a Hybu Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog, yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith y grŵp hwn yn cynnwys ystyried ymgorffori cytuniadau'r CU ymhellach.

Rhoeson ni dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar hawliau plant yng Nghymru yn hydref 2019, gan gynnwys galw am ymgorffori CCUHP ymhellach yn uniongyrchol i gyfraith Cymru, ochr yn ochr â galwadau eraill megis gwell mecanweithiau cwynion ar gyfer plant sy'n teimlo bod eu hawliau wedi cael eu torri. Mae adroddiad yr ymchwiliad wedi dioddef oedi anochel oherwydd Covid-19.

# Cymru: gwlad lle mae hawliau'n cael eu gwireddu

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

### Prosiect

Byddwn ni'n adrodd ar gynnydd ac ymrwymiad Cymru o ran hawliau plant yn dilyn Sylwadau Terfynol Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn 2016.

### Allbynnau

Ym mis Tachwedd 2019 fe gyhoeddon ni **ddogfen** ar y cyd â'n cymheiriaid yn y Deyrnas Unedig oedd yn asesu sut mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi gwneud cynnydd tuag at roi i bob plentyn y cyfleoedd a'r amddiffyniadau a grisialir yn CCUHP ers adolygiad diwethaf Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn o gynnydd y Deyrnas Unedig yn 2016.

Er ein bod wedi gweld datblygiadau cadarnhaol, mae'r dystiolaeth yn amlygu diffygion difrifol. Mae'r adroddiad yn nodi blaenoriaethau'r Comisiynwyr o ran sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu, a bod pob plentyn yn cael y mesurau amddiffyn a'r cyfleoedd y mae ganddyn nhw hawl i'w derbyn.

**Amddiffyniad cyfartal:**
Ym mis Mawrth 2020 pasiwyd Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol)(Cymru) 2020. Mae hyn yn cywiro anghysondeb cyfreithiol oedd yn golygu y gallai rhieni a gofalwyr honni bod cosbi plentyn yn gorfforol yn rhesymol. Mae Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn wedi galw droeon ar y Deyrnas Unedig i ddileu'r amddiffyniad hwn, ac rydyn ni'n falch bod y cam hwn wedi cael ei gymryd yng Nghymru i roi i blant amddiffyniad cyfartal ag oedolion rhag cosb gorfforol. Fe gyfrannon ni at basio'r Bil trwy ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar, a thrwy gyfranogi mewn grŵp cynghori rhanddeiliaid i Lywodraeth Cymru. Bydd y swyddfa'n parhau i gael ei chynrychioli ar nifer o weithgorau sy'n gysylltiedig â chyfleu negeseuon ac ymwybyddiaeth y cyhoedd, ac ystyried dulliau datrys amgen heblaw erlyn rhieni yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd cyn i'r Ddeddf ddod i rym ym mis Mawrth 2022.

# Cymru: gwlad lle mae hawliau'n cael eu gwireddu

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

| Gwaith o ddydd i ddydd | Allbynnau |
| --- | --- |
| Byddwn ni'n parhau i weithredu oddi mewn i fframwaith hawliau plant ein hunain. | Prif bwrpas 'Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru' yw annog cyrff a sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru i fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant a fydd, yn ei dro, yn helpu i gyflawni newidiadau gwirioneddol yn ansawdd bywyd pob dydd plant, a chyfle cyfartal i gyflawni eu potensial. Rydyn ni wedi ymrwymo i lynu at bum egwyddor y fframwaith ein hunain. Gallwch ddarllen mwy am y cynnydd rydyn ni wedi'i wneud ar dudalen 62. |
| Byddwn ni'n parhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru ac eraill i gyflawni eu haddewidion ar gyfer plant a phobl ifanc, trwy ein gwaith polisi a materion cyhoeddus. | Mae ein cerdyn adroddiad ar dudalen 70 ymlaen yn amlygu'r gwaith dylanwadu pwysig a wnaed gan ein tîm polisi o 5 ymgynghorydd eleni. |

# Dysgu, deall a phrofi hawliau

## Beth yw'r broblem soniodd plant a phobl ifanc wrthyn ni amdani?

Mae galw pendant gan blant, rhieni a gweithwyr proffesiynol i sicrhau bod ysgolion yn ganolfannau rhagoriaeth ar gyfer llesiant, cynhwysiad, ac i baratoi plant Cymru i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymdeithas fel dinasyddion. Mae hynny'n golygu eu bod nhw'n cael eu cefnogi'n emosiynol, yn dysgu ac yn profi perthnasoedd iach gydag eraill, ac yn deall a pharchu hawliau dynol pobl o gefndiroedd amrywiol.

Datgelodd ein hadolygiad o'r dystiolaeth a'n hymgynghoriad fod bwlio yn dal yn bryder i blant a phobl ifanc

# Dysgu, deall a phrofi hawliau

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

### Prosiect

Byddwn ni'n dathlu 30 mlynedd o CCUHP yng Nghymru yn 2019, ac yn defnyddio'r flwyddyn honno i roi cyhoeddusrwydd i hawliau plant.

### Allbynnau

Fe ymunon ni â phartneriaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru i ddathlu 30 mlynedd o CHP yng Nghymru. Daeth uchafbwynt y dathlu ar 20 Tachwedd 2019, Diwrnod Byd-eang y Plant, pan fuon ni'n lansio 8 cynllun gwers a chân newydd ar gyfer plant yn y Cyfnod Sylfaen (3-7 oed), fel rhan o'n cynllun newydd 'Bitw Bach'.

**Yn ystod y prosiect:**

- Buon ni'n gweithio gydag 11 o ysgolion i ddatblygu'r adnodd (3 Ysgol Gymraeg ac 8 Saesneg)
- Buon ni'n ymweld â 3 meithrinfa ym Mhowys a Rhondda Cynon Taf i ymgynghori â phlant iau a threialu'r deunyddiau roedden ni wedi'u cynhyrchu
- Buon ni'n cyflwyno hyfforddiant i 200 o weithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar
- Buon ni'n ymgynghori â 10 athro Cyfnod Sylfaen
- Cawson ni adborth ffurfiol gan 7 ysgol ac 1 feithrinfa
- Buon ni'n treialu gweithgareddau yn yr Urdd, yn gweithio gyda 100oedd o blant ar draws yr wythnos
- Buon ni'n gweithio gyda 278 o blant 2-7 oed
- Cynhalion ni ddau ddigwyddiad lansio yng ngogledd a de Cymru ar gyfer 128 o blant
- Buon ni'n ymweld â Thŷ Hywel gydag 15 o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen i rannu'r adnoddau newydd gydag Aelodau Cynulliad, gan gynnwys y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

>>>

# Dysgu, deall a phrofi hawliau

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

### Prosiect

Byddwn ni'n dathlu 30 mlynedd o CCUHP yng Nghymru yn 2019, ac yn defnyddio'r flwyddyn honno i roi cyhoeddusrwydd i hawliau plant.

### Allbynnau

- Buon ni'n gweithio gydag Ysgol Gynradd Creigiau a'r cyfansoddwyr caneuon Sara Lewis a Dyfan Jones i greu cân hawliau plant yn Gymraeg a Saesneg. Perfformiwyd y gân hon gan ddisgyblion blwyddyn 3 o Ysgol Gynradd Creigiau ar gyfer y Dirprwy Weinidog, Julie Morgan, ar Ddiwrnod Byd-eang y Plant.

Mae'r cynlluniau gwersi wedi cael eu lawrlwytho 202 o weithiau, ac mae'r caneuon wedi cael eu chwarae dros 2000 o weithiau.

**Bathodyn Sgowtiaid a Geidiau**
I nodi'r flwyddyn arbennig hon, fe benderfynon ni hefyd ddiweddaru ac ail-lansio ein Bathodyn Sgowtiaid yn ystod Diwrnod Hwyl y Cybiau, a buon ni'n gweithio gyda mwy na 300 o gybiau ar weithgareddau hawliau.

Ers lansio'r bathodyn mae 46 o blant a phobl ifanc wedi ei gwblhau.

# Dysgu, deall a phrofi hawliau

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

### Prosiect

Byddwn ni'n dathlu 30 mlynedd o CCUHP yng Nghymru yn 2019, ac yn defnyddio'r flwyddyn honno i roi cyhoeddusrwydd i hawliau plant.

### Allbynnau

**ENYA**
Eleni buon ni'n cymryd rhan yn ENYA (Rhwydwaith Ymgynghorwyr Ifanc Ewrop), prosiect cyfranogiad blynyddol sy'n cynnwys pobl ifanc o bob rhan o Ewrop. Buon ni'n gweithio gydag 16 o ddisgyblion o Ysgol Gyfun Gŵyr ar y thema – 'Gadewch i ni siarad am hawliau plant yn yr amgylchedd digidol'.

Pwrpas y prosiect oedd bod y grŵp yn cwrdd dros gyfnod o sawl mis i drafod y thema, creu cyflwyniad a datblygu argymhellion polisi. Gwnaeth y grŵp hefyd ffilm am hunan-ddelwedd ar-lein. Yna etholwyd dau lysgennad o'r grŵp i gyflwyno'u prosiect a'u hargymhellion polisi yn Fforwm ENYA, a gynhaliwyd ym Mrwsel.

Yna dewiswyd un aelod o bob un o'r 18 gwlad/rhanbarth oedd yn cymryd rhan i fynychu Cynhadledd Flynyddol ENOC (Rhwydwaith Ombwdsmyn a Chomisiynwyr Ewrop) yn Belfast. Yno, cyflwynwyd y gwaith mae ENYA yn ei wneud ar y cyd, a buon nhw'n trafod y materion yn fanylach gydag ombwdsmyn. Yna bwydodd yr argymhellion polisi a ddatblygwyd gan ENYA i mewn i ddatganiad blynyddol ENOC ar hawliau digidol.

# Dysgu, deall a phrofi hawliau

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

### Prosiect

Byddwn ni'n archwilio hawliau yn y blynyddoedd cynnar trwy estyn ein cynllun llysgenhadon i gwmpasu lleoliadau blynyddoedd cynnar a darparu gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer rhieni.

### Allbynnau

Gallwch chi ddarllen mwy am ein gwaith 'Bitw Bach' ar dudalen 25.

Mae prosiect Bitw Bach wedi bod yn gynllun prosiect peilot blwyddyn o hyd lle buon ni'n gweithio gydag 13 o ysgolion ledled Cymru i lunio cynlluniau gwersi ac adnoddau newydd ar gyfer lleoliadau Cyfnod Sylfaen.

Mae'r pecyn newydd a ddatblygwyd eleni yn galluogi plant o'r cyfnod sylfaen i archwilio'r pethau mae arnyn nhw eu hangen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.

# Dysgu, deall a phrofi hawliau

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

### Prosiect

Edrych yn fanwl ar ansawdd cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau, gan gynnwys mewn lleoliadau ysgol.

### Allbynnau

Drwy weithio gydag is-dîm o Banel Ymgynghorol Pobl Ifanc y Comisiynydd i ddatblygu methodoleg, bu tîm y Comisiynydd yn adeiladu ar ganfyddiadau Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2018 i ddysgu mwy am gyfranogiad mewn ysgolion rhwng Mawrth 2019 a Mawrth 2020. Roedd yr ymchwil sylfaenol hon yn ymwneud â'r canlynol:

- **Arolwg Addysg y Ffordd Gywir 2019**
  Cwblhawyd gan 7404 o blant a phobl ifanc a 360 o athrawon ar draws 98 lleoliad ysgol gwahanol
- **Arolwg o Lywodraethwyr Ysgol**
  Cwblhawyd gan 135 o Lywodraethwyr
- **Arolwg canfod ffeithiau ar gyfer cynghorau ysgol uwchradd**
  Cwblhawyd gan 24 o gynghorau ysgolion uwchradd
- **Gweithdai ymgynghori wyneb yn wyneb mewn ysgolion**
  Gyda 109 o bobl ifanc mewn 8 ysgol, ar draws 5 ardal awdurdod lleol yng Nghymru
- Dwy drafodaeth gyda phobl ifanc ynghylch effeithiolrwydd cynghorau ysgol (yng ngogledd a de Cymru), gyda chynrychiolwyr o 21 o ysgolion uwchradd

# Dysgu, deall a phrofi hawliau

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

### Prosiect

Edrych yn fanwl ar ansawdd cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau, gan gynnwys mewn lleoliadau ysgol.

### Allbynnau

- Gweithdai ymgynghori wyneb yn wyneb mewn grwpiau cymunedol, gyda 40 o bobl ifanc mewn 5 lleoliad cymunedol gwahanol mewn 4 ardal awdurdod lleol yng Nghymru
- Cyfweliadau astudiaethau achos, ymweliadau neu adroddiadau am gyfranogiad mewn 7 lleoliad gwahanol, mewn 6 ardal awdurdod lleol
- Ymgynghori a chyfarfodydd gyda gweithwyr proffesiynol gan gynnwys: Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cymru; Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru gyfan; grŵp trafod gydag athrawon uwchradd; pob un o'r 4 consortiwm; Grŵp Cefnogi Llywodraethwyr ADEW ac Estyn.

Mewn ymateb i'r canfyddiadau, bu'r Comisiynydd yn gweithio gyda phobl ifanc i ddatblygu canllaw actifyddiaeth ar-lein i blant a phobl ifanc, **Gwneud Gwahaniaeth: Canllaw Person Ifanc i Weithredu**.

Roedd yr adroddiad llawn a'r argymhellion i gael ei gyhoeddi yn ystod wythnos olaf mis Mawrth 2020, ond fe'i gohiriwyd oherwydd y sefyllfa argyfyngus oedd yn datblygu ar y pryd.

# Dysgu, deall a phrofi hawliau

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith o ddydd i ddydd

| Gwaith o ddydd i ddydd | Allbynnau |
|---|---|
| Byddwn ni'n gweithio i ddylanwadu a chraffu ar waith y Llywodraeth yn creu'r cwricwlwm newydd er mwyn sicrhau trwy ddeddfwriaeth bod plant yn dysgu am eu hawliau dynol, yn dysgu mewn amgylchedd sy'n amddiffyn eu hawliau, ac felly wedi'u paratoi i amddiffyn a hybu hawliau eraill yn y gymdeithas. | Mae'r Comisiynydd wedi cael ei chynrychioli ar y Grŵp Cynghori Annibnnol a'r Grŵp Rhanddeiliad Strategol i'r cwricwlwm. Yn haf 2019 cyflwynodd y Comisiynydd ymateb llawn i ddogfennau drafft y cwricwlwm, a thrwy graffu droeon, sicrhaodd fod pobl ifanc yn cael cyfleoedd ar-lein ac wyneb yn wyneb i fod yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. Roedd dogfennaeth y cwricwlwm a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 yn adlewyrchu sawl elfen o brif alwadau'r comisiynydd: mae hawliau'n cael eu cynnwys ym Meysydd Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a Iechyd a Llesiant, ac mae'r cyflwyniad i'r cwricwlwm yn cynnwys adrannau ar CCUHP, addysg hawliau dynol, a chyfranogiad dysgwyr wrth ddylunio'r cwricwlwm. Bu fy nhîm yn cefnogi'r gwaith o ddrafftio'r cynnwys addysg hawliau dynol. Mae manylion llawnach am y gwaith hwn ar gael yn y Cerdyn Adroddiad. |
| Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'r llywodraeth i sicrhau bod plant, ble bynnag maen nhw'n cael eu haddysg, yn cael mynediad at yr addysg orau bosibl. | Drwy dynnu ar adolygiad o'r gwaith achosion a dderbyniwyd yn ystod tymor y Comisiynydd presennol, cyflwynodd y Comisiynydd dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i mewn i'r ddarpariaeth EOTAS. Cyfrannodd y swyddfa hefyd at adolygiad o drefniadau comisiynu EOTAS awdurdodau lleol a thystiolaeth a rennid a ddaeth i law trwy waith cyfranogol ac achosion gyda Phanel Arbenigwyr Re-imagine Schooling. Ar ben hynny, cyfrannodd swyddfa'r Comisiynydd at ddigwyddiad bord gron ar eithrio, dan arweiniad Samaritans Cymru. |

# Dysgu, deall a phrofi hawliau

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith o ddydd i ddydd

### Gwaith o ddydd i ddydd

Byddwn ni'n parhau i recriwtio a rhoi cefnogaeth i'n Llysgenhadon Gwych, ein Llysgenhadon Myfyrwyr a'n Llysgenhadon Cymunedol.

### Allbynnau

Rydyn ni'n cynnal tri chynllun am ddim sy'n grymuso plant a phobl ifanc i ddod yn Llysgenhadon i'r Comisiynydd yn eu hysgol neu eu grŵp cymunedol. Mae Llysgenhadon yn chwarae rhan arweiniol yn hybu hawliau plant a rôl y Comisiynydd. Mae'r cynlluniau hefyd yn galluogi miloedd o blant a phobl ifanc i fwydo i mewn i waith y swyddfa trwy Dasgau Arbennig (ffordd systematig o ymgynghori ag ystod o blant a phobl ifanc a chael arweiniad ganddyn nhw ar faterion sy'n gysylltiedig â gwaith thematig y swyddfa).

**Llysgenhadon Gwych (Ysgolion Cynradd)**
Fe wnaethon ni gynyddu nifer ein hysgolion Llysgenhadon Gwych yn sylweddol eleni, o 500 i 606. Fe wnaethon ni ddyblu nifer ein digwyddiadau hyfforddi ym mis Hydref, gan gynnal chwe digwyddiad ar draws Cymru, lle buon ni'n gweithio gyda 475 o blant a 219 o staff addysgu, o gymharu â 295 o blant a 143 o staff addysgu'r llynedd. Rhoddodd 96% o'r ysgolion a ddaeth i'r digwyddiadau sgôr o 8/10 neu'n uwch i'r diwrnod.

> **Gweld sut mae hawliau plant yn gallu "ffitio mewn" gyda phob dim"**
>
> **"Gweithgareddau byr, cryno – gyda gêmau difyr rhyngddyn nhw y gall pawb ohonon ni eu defnyddio i hyrwyddo a rhannu'r hawliau yn yr ysgol. Gwybodaeth glir i athrawon, i roi arweiniad da yn yr ysgol. Cyfarwyddyd eglur am y dasg."**

# Dysgu, deall a phrofi hawliau

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith o ddydd i ddydd

### Gwaith o ddydd i ddydd

Byddwn ni'n parhau i recriwtio a rhoi cefnogaeth i'n Llysgenhadon Gwych, ein Llysgenhadon Myfyrwyr a'n Llysgenhadon Cymunedol.

Gallwch chi ddarllen am raglen waith ein Llysgenhadon Cymunedol ar dudalen 44.

### Allbynnau

**Llysgenhadon Myfyrwyr (Ysgolion uwchradd)**
Eleni roedd 95 o ysgolion Llysgenhadon Myfyrwyr wedi ymuno â'n cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr. Fe wnaethon ni groesawu ysgolion o 14 o Awdurdodau Lleol gwahanol i'n cynadleddau Llysgenhadon Myfyrwyr ac athrawon blynyddol, a gynhaliwyd yn Llandudno a Chaerdydd. Yn ystod y ddwy gynhadledd, fe wnaethon ni:

- Lansio tasg arbennig y gwanwyn, ynghyd â'n hadnodd newydd sbon "**Gwneud gwahaniaeth: Canllaw person ifanc i weithredu**."
- Cyflwyno gwers newydd sbon ar hanes hawliau plant a phobl ifanc.

# Dysgu, deall a phrofi hawliau

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith o ddydd i ddydd

### Gwaith o ddydd i ddydd

Byddwn ni'n parhau i recriwtio a rhoi cefnogaeth i'n Llysgenhadon Gwych, ein Llysgenhadon Myfyrwyr a'n Llysgenhadon Cymunedol.

Gallwch chi ddarllen am raglen waith ein Llysgenhadon Cymunedol ar dudalen 44.

### Allbynnau

**Fe gawson ni adborth cadarnhaol gan y disgyblion a'r athrawon oedd yn bresennol:**

**"Roedd y cyflwyniadau'n dda ac yn ddiddorol iawn. Fe wnaeth y bobl ifanc fwynhau cymryd rhan"** (Athro, digwyddiad Caerdydd)

**"Roeddwn i wrth fy modd yn dysgu am agwedd hanesyddol Hawliau Plant"** (Myfyriwr, digwyddiad Caerdydd)

**"Roedd y digwyddiad cyfan yn ddiddorol iawn ac yn cadw ein sylw"** (Myfyriwr, digwyddiad Caerdydd)

**"Gwahanu saesneg a cymraeg ac gwneud amrywieaeth o weithgareddau."** (Myfyriwr, digwyddiad Llandudno)

**"Gweithdai difyr a digon o amser am drafodaeth a sgwrsio."** (Myfyriwr, digwyddiad Llandudno)

**"Y drafodaeth, achos cawson ni glywed barn ysgolion eraill"** (Myfyriwr, digwyddiad Llandudno)

**"Rydyn ni wedi cael ein dysgu am hawliau plant ac yn gwybod ein bod ni'n gallu cynnwys yr wybodaeth yma mewn materion i'r cyngor ysgol"** (Myfyriwr, digwyddiad Llandudno)

# Dysgu, deall a phrofi hawliau

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith o ddydd i ddydd

### Gwaith o ddydd i ddydd

Byddwn ni'n craffu ar y rhai sy'n gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 i ofalu'n arbennig am eu dyletswydd newydd i roi sylw dyledus i hawliau plant.

### Allbynnau

Ym mis Medi 2019 cyhoeddodd y Llywodraeth oedi wrth weithredu Deddf 2018, yn rhannol oherwydd bod angen ailddrafftio'r Côd Ymarfer a'r Rheoliadau oedd yn destun ymgynghori yn gynharach yn y flwyddyn. Mae fy swyddfa wedi parhau i ymgysylltu â'r Llywodraeth a'r gwaith trawsffurfiannol yn y rhanbarthau er mwyn pwysleisio sut gall y Côd newydd wreiddio hawliau plant yn llawnach ar draws eu profiad addysgol, a sicrhau bod cynllunio'r cwricwlwm newydd yn cyd-fynd ag egwyddorion hawliau dynol Deddf 2018.

Mae fy swyddfa hefyd wedi parhau i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol, plant, grwpiau rhieni a lleoliadau i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau plant a sut maen nhw'n llywio cyfraith 2018. Fe roeson ni gyflwyniad ar ddyletswydd sylw dyledus i Is-grŵp Strategol y Cwricwlwm, Partneriaeth Rhieni Sir Benfro ac mewn digwyddiad hyfforddi ar hawliau plant i arweinwyr llesiant yn y consortia rhanbarthol.

# Amddiffyn hawliau, ble bynnag rydych chi

## Beth yw'r broblem soniodd plant a phobl ifanc wrthyn ni amdani?

Daeth pwysigrwydd cadw plant yn ddiogel rhag niwed neu gamdriniaeth i'r amlwg fel blaenoriaeth uchel neu bennaf ar draws y rhan fwyaf o grwpiau oedran yn Beth Nawr, o blant 3 oed hyd at weithwyr proffesiynol.

Roedd pryder cyffredinol hefyd ynghylch grwpiau o blant sy'n wynebu cyfle anghyfartal oherwydd tlodi, anabledd, materion iechyd meddwl a phroblemau teuluol, o Beth Nawr ac o ymgyngoriadau wyneb yn wyneb â phlant ac oedolion.

Datgelodd ein hadolygiad o'r dystiolaeth hefyd fod anghydraddoldeb yn sgîl tlodi yn her fawr i Gymru, ochr yn ochr â heriau cefnogi iechyd meddwl plant a'r rhai ag anableddau.

# Amddiffyn hawliau, ble bynnag rydych chi

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

### Prosiect

Byddwn ni'n ymchwilio i brofiadau plant sy'n wynebu'r mwyaf o heriau i fanteisio ar eu hawliau trwy gyfres o adolygiadau thematig.

### Allbynnau

Yn dilyn ymlaen o'n hadroddiad '**Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn plant Cymru rhag effaith tlodi**', fe wnaethon ni ymrwymo i gynhyrchu adnoddau ymarferol eleni. Isod mae crynodeb o'n gwaith:

#### Adnoddau i Ysgolion

Buon ni'n gweithio gydag aelodau o'n panel ymgynghorol ieuenctid i adolygu a diweddaru ein dau adnodd allweddol ar gyfer ysgolion, **Gwyrdd-droi a Cofia Ceri**, i wneud yn siŵr eu bod nhw mor hygyrch a defnyddiol â phosib. O'u cyfuno, mae'r adnoddau hyn wedi cael eu lawrlwytho 421 o weithiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydyn ni hefyd wedi mynd ati ar y cyd i ddatblygu dau adnodd newydd am ddim i ysgolion.

**Canllaw cynghorion gwych ar gyfer sefydlu cynllun ailgylchu gwisg ysgol ar draws y sir**, a ddatblygwyd gyda Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ddinbych er mwyn rhoi cyngor i ysgolion a sefydliadau cymunedol ynghylch sefydlu cynllun ar draws y sir. Arweiniodd disgyblion o ysgol Maesteg y gwaith o greu fideo am sefydlu siop gyfnewid 'gwisgoedd prom' ar sail eu profiad, er mwyn ysbrydoli disgyblion o ysgolion eraill i wneud rhywbeth tebyg.

>>>

# Amddiffyn hawliau, ble bynnag rydych chi

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

### Prosiect

Byddwn ni'n ymchwilio i brofiadau plant sy'n wynebu'r mwyaf o heriau i fanteisio ar eu hawliau trwy gyfres o adolygiadau thematig.

### Allbynnau

**Tasg Arbennig**
Yn nhymor yr hydref 2019 fe ofynnon ni i'r ysgolion cynradd ac uwchradd oedd yn rhan o'n cynllun Llysgenhadon i ddefnyddio'n hadnodd Gwyrdd-droi i weithio gyda disgyblion yn eu hysgol i sefydlu siop ailddefnyddio gwisg ysgol; er mwyn bod o fudd i'r amgylchedd a helpu rhieni/gofalwyr i arbed arian. Cyn dechrau'r dasg fe gynhalion ni weithdy ar gyfer 475 o Lysgenhadon disgyblion er mwyn iddyn nhw helpu i arwain y dasg hon yn eu hysgol.

Ers hynny mae dros 50 o ysgolion wedi cadarnhau bod ganddyn nhw gynlluniau clir neu eu bod eisoes wedi gweithredu newidiadau fel sefydlu cynlluniau ailddefnyddio gwisg ysgol a newid gweithgareddau sy'n golygu costau i ddisgyblion.

Rwyf hefyd wedi bod yn falch o glywed bod ysgolion yn Sir y Fflint yn bwriadu defnyddio Cofio Ceri fel un o'r tair ffordd allweddol o helpu i daclo tlodi, yn dilyn ymgysylltu â phenaethiaid ysgolion mewn cynhadledd i'r sir gyfan.

**Gweminar Llywodraethwyrr**
Ymunodd 140 o Lywodraethwyr ysgol â'n gweminar dwyieithog cyntaf i Lywodraethwyr, oedd yn hybu pwysigrwydd llais y dysgwr a defnyddio ein hadnodd Cofia Ceri i'w helpu i weithio gyda disgyblion i leihau baich ariannol bywyd yr ysgol ar deuluoedd a chyfrannu at lesiant disgyblion.

# Amddiffyn hawliau, ble bynnag rydych chi

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

### Prosiect

Trwy weithio gyda chydweithwyr yng Nghymru ac yn rhyngwladol, byddwn ni'n hyrwyddo hawliau digidol plant yn 2019-20.

### Allbynnau

Mae CPC yn gweithio gyda 5Rights, sefydliad sy'n gweithio i sicrhau bod y byd digidol yn darparu ar gyfer plant a phobl ifanc. Maen nhw'n datblygu fersiwn hwylus i blant o ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc sy'n bwydo i mewn i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan dîm Sylwadau Cyffredinol CCUHP ar ddatblygu sylw cyffredinol am hawliau digidol. Mae 571 o blant o 23 o wledydd wedi cyfranogi yn yr ymgynghoriad hyd yma.

Buon ni hefyd yn rhan o'r gwaith i ddatblygu datganiad ENOC ar hawliau digidol y cyfeirir ato uchod, ar ôl cyflwyno ar Lythrennedd Digidol yng Nghymru fel rhan o'r gynhadledd.

# Amddiffyn hawliau, ble bynnag rydych chi

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith o ddydd i ddydd

### Gwaith o ddydd i ddydd

Byddwn ni'n parhau i amlygu'r angen am ddiogelu hawliau plant a all fod yn arbennig o agored i niwed oherwydd eu bod ar y cyrion neu wedi'u cuddio o'r golwg.

### Allbynnau

Mae ein tîm Polisi wedi mynychu gweithgorau ac wedi ymateb i amrywiaeth o ymgyngoriadau yn ystod y flwyddyn hon, mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal oddi cartref, y rhai sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliadau heblaw ysgolion a gynhelir, a phlant o grwpiau lleiafrifol. Mae rhagor o fanylion am ein gwaith polisi ar gael yn adran Cerdyn Adroddiad yr adroddiad blynyddol hwn.

Ar ben hyn, mae ein Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor wedi delio gyda 627 o achosion o bob rhan o Gymru; i gael rhagor o wybodaeth am waith y tîm, edrychwch ar dudalen 52, ond mae'r rhain wedi cynnwys:

#### Addysgu Gartref a Chanolfannau Arholi

**Mater a godwyd** – Cysylltodd rhiant plentyn oedd yn cael addysg gartref â ni yn pryderu eu bod nhw'n methu cael hyd i ganolfan arholi i'w plentyn sefyll arholiadau TGAU Rhyngwladol. Roedd y rhiant wedi holi'r awdurdod lleol a nifer o ysgolion lleol, ond heb lwyddiant. Dywedodd yr awdurdod lleol wrth y rhiant na allai eu canolfan nhw ddarparu ar gyfer myfyrwyr oedd yn sefyll TGAU Rhyngwladol ac roedd yr ysgolion eraill roedd y rhiant wedi troi atynt wedi dweud na fydden nhw'n ystyried y cais gan nad oedd yr un ohonyn nhw wedi cofrestru gyda'r corff arholi perthnasol.

>>>

# Amddiffyn hawliau, ble bynnag rydych chi

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith o ddydd i ddydd

### Gwaith o ddydd i ddydd

Byddwn ni'n parhau i amlygu'r angen am ddiogelu hawliau plant a all fod yn arbennig o agored i niwed oherwydd eu bod ar y cyrion neu wedi'u cuddio o'r golwg.

### Allbynnau

**Gweithredu** – Cysylltodd y Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor â swyddog addysg yn yr awdurdod lleol i drafod y mater hwn ac i esbonio bod hyn yn debygol o effeithio ar blant eraill yn yr ardal leol. Cytunodd y Swyddog i ymchwilio i'r mater.

**Canlyniad** – Nododd yr awdurdod lleol fod yr Uned Cyfeirio Disgyblion oedd ganddyn nhw'n lleol yn ganolfan arholi ar gyfer y cymhwyster penodol yma, a llwyddodd y rhiant i ddod i drefniant uniongyrchol gyda'r UCD ynghylch eu plentyn yn sefyll arholiadau yn y ganolfan. Byddai'n rhaid i'r rhiant dalu am oruchwylydd arholiad petai rhaid i'w plentyn sefyll arholiadau ar ddiwrnodau heblaw'r rhai pan fyddai disgyblion yr UCD yn sefyll arholiadau. Byddai'r cyfleuster hwn ar gael i rieni eraill oedd yn Addysgu eu plant Gartref. Rhannwyd y problemau ynghylch canolfannau arholi ar gyfer disgyblion oedd yn cael eu Haddysgu Gartref gyda chydweithwyr polisi oedd yn gallu gwneud y pwynt hwn mewn ymateb ymgynghori i Lywodraeth Cymru ar addysgu gartref.

# Amddiffyn hawliau, ble bynnag rydych chi

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith o ddydd i ddydd

### Gwaith o ddydd i ddydd

Byddwn ni'n parhau i amlygu'r angen am ddiogelu hawliau plant a all fod yn arbennig o agored i niwed oherwydd eu bod ar y cyrion neu wedi'u cuddio o'r golwg.

### Allbynnau

**Mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) a Gwasanaethau Niwroddatblygiadol**

**Mater a godwyd** – Cysylltodd rhiant â ni oherwydd rhwystredigaeth fawr ynghylch y ffaith nad oedd cefnogaeth CAMHS wedi cael ei chynnig i'w phlentyn oedd ag anhwylder bwyta. Roedd y rhiant yn teimlo nad oedd darpariaeth arbenigol ar gyfer cyflwr ei phlentyn, ac roedd yn pryderu am yr amser oedd yn cael ei gymryd i drenu apwyntiad seiciatrig. Roedd y plentyn wedi gweld pedwar cynghorydd CAMHS gwahanol a dietegydd oedd wedi argymell bod y plentyn yn gweld seiciatrydd. Roedd y plentyn hefyd ar y rhestr aros ar gyfer asesiad gyda'r tîm niwroddatblygiadol (NDT), gan fod tybiaeth y gallai fod yn awtistig o bosibl. Ar hyd yr amser roedd yr anhwylder bwyta yn gwaethygu. Teimlai'r rhiant nad oedd neb yn gwrando.

**Gweithredu** – cysylltodd y Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor â'r gwasanaeth CAMHS lleol i rannu pryderon y rhiant a sicrhau bod ei llais yn cael ei glywed.

**Canlyniad** – Arweiniodd hyn at adolygu'r achos gyda chynnig yn dilyn i weld seiciatrydd oddi mewn i derfyn amser derbyniol. Arweiniodd yr adolygiad hefyd at roi'r gorau i gynllun bwyd y plentyn oherwydd cysylltiadau posibl rhwng awtistiaeth a straen cysylltiedig â bwyd. Adroddodd y rhiant yn ddiweddarach fod hyn wedi creu gwahaniaeth sylweddol yn lefelau straen y plentyn a'i arferion bwyta ers hynny. Roedd y plentyn yn dal i orfod aros 9 mis ar gyfer asesiad NDT. Rhannwyd profiad y plentyn gyda'r Comisiynydd a'r tîm polisi oedd eisoes yn ymwybodol o faterion cysylltiedig ag amserau aros ar gyfer gwasanaethau CAMHS ac NDT.

# Amddiffyn hawliau, ble bynnag rydych chi

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith o ddydd i ddydd

### Gwaith o ddydd i ddydd

Byddwn ni'n parhau i amlygu'r angen am ddiogelu hawliau plant a all fod yn arbennig o agored i niwed oherwydd eu bod ar y cyrion neu wedi'u cuddio o'r golwg.

### Allbynnau

**Plentyn ag Anabledd – Mynediad at doiledau cyhoeddus**

**Mater a godwyd** – Cysylltodd pennaeth ysgol o ogledd Cymru â'r swyddfa yn dilyn adolygiad o ddisgybl ag Anghenion Addysgol Arbennig. Mae gan y disgybl anawsterau dysgu difrifol ac awtistiaeth, llawer o egni, ond sgiliau cyfathrebu cyfyngedig. Y tu allan i'r ysgol mae ei deulu a staff cymorth yn ei gefnogi ar deithiau cerdded hir gan ei fod yn egnïol iawn, ac yn mwynhau llosgi peth o'i egni fel hyn. Gwaetha'r modd mae llawer o'r toiledau cyhoeddus yn y gymuned dan glo, ac er bod ganddo allwedd RADAR mae'r system honno'n aml yn cael ei disodli, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. Hefyd mae'r cyfleuster allwedd RADAR mewn rhai toiledau yn cael ei gau cyn yr adegau penodedig ar gyfer cloi. Roedd hynny'n cael effaith sylweddol ar ei allu i fod yn annibynnol.

**Gweithredu** – Cysylltodd y Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor â rhiant y plentyn i gael rhagor o wybodaeth am y broblem, cyn cysylltu ag adran berthnasol yr awdurdod lleol ac esbonio'r broblem wrthyn nhw. Ymatebodd yr awdurdod lleol yn gadarnhaol. Gofynnodd rheolwr i'r person sydd â gofal am y toiledau gadw'r toiled ar agor tan amser penodedig, a darparodd yr awdurdod hefyd restr wedi'i diweddaru o'r holl gyfleusterau cyhoeddus lleol.

**Canlyniad** – Roedd modd i'r person ifanc ailgydio yn ei weithgaredd hamdden gan wybod y byddai modd iddo ddefnyddio toiledau cyhoeddus petai angen. Byddai hyn hefyd o fudd i bobl eraill anabl yn yr ardal leol.
Fe wnaethon ni gysylltu â'r rhiant a'r pennaeth gyda gwybodaeth a'u cyfeirio at ddolen ar y we ar gyfer toiledau cymunedol ychwanegol.

# Amddiffyn hawliau, ble bynnag rydych chi

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith o ddydd i ddydd

### Gwaith o ddydd i ddydd

Byddwn ni'n parhau i wrando ar blant a phobl ifanc a all fod yn arbennig o agored i niwed trwy ein cynllun Llysgenhadon Cymunedol.

### Allbynnau

**Llysgenhadon Cymunedol** – Mae Llysgenhadon Cymunedol yn cynrychioli grwpiau cymunedol lleol neu grwpiau diddordeb arbennig. Daliwyd ati i hwyluso rhaglen y Llysgenhadon Cymunedol. Ar ddechrau'r flwyddyn fe wnaethon ni lansio pecyn **adnoddau** newydd ar gyfer Llysgenhadon Cymunedol.

Mae nifer o weithdai wedi cael eu cyflwyno i grwpiau newydd ledled Cymru yn ystod y flwyddyn, ac ar hyn o bryd mae gennym ni 16 o grwpiau Llysgenhadon Cymunedol gweithredol.

Cynhalion ni ddau ddigwyddiad rhanbarthol, un yn ne Cymru ym mis Medi, lle roedd 6 grŵp o bobl ifanc yn bresennol, yn cynrychioli ystod o ddiddordebau arbennig, yn cynnwys Gofalwyr Ifanc, Fforwm Ieuenctid, Pobl Ifanc â phrofiad o Ofal, Sipsiwn sy'n Deithwyr, Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a Llysgenhadon Hawliau.

Yn yr ail ddigwyddiad, a gynhaliwyd yng ngogledd Cymru ym mis Ionawr eleni, roedd 5 grŵp yn bresennol, yn cynnwys Fforwm Ieuenctid, Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), Gofalwyr Ifanc a phobl ifanc â phrofiad o ofal.

>>>

# Amddiffyn hawliau, ble bynnag rydych chi

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith o ddydd i ddydd

| Gwaith o ddydd i ddydd | Allbynnau |
| --- | --- |
| Byddwn ni'n parhau i wrando ar blant a phobl ifanc a all fod yn arbennig o agored i niwed trwy ein cynllun Llysgenhadon Cymunedol. | Yn ogystal â barn grwpiau Llysgenhadon Cymunedol yn bwydo'n gyffredinol i waith y swyddfa, mae rhai grwpiau wedi gweithio gyda ni ar brosiectau penodol hefyd, megis prosiect "Y Ffordd Gywir". Mae gofalwyr ifanc Barnardo's ym Merthyr wedi cefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu siarter ar gyfer pobl ifanc, ac maen nhw wedi cyfrannu eu barn i'n prosiect cynghorau ysgol.<br><br>Fe wnaethon ni hefyd recriwtio grŵp o garcharorion o grŵp rhianta CEM Berwyn a chyflwyno hyfforddiant i 12 o ddynion a aeth ymlaen i gyflwyno sesiynau hawliau plant i'w plant a gweithio gyda 'Super Squad' CEM Parc – grŵp o blant carcharorion – gan nodi materion sy'n effeithio arnyn nhw ac edrych ar sut gallai eu grŵp barhau i siarad am eu hawliau plant. |
| Byddwn ni'n parhau i gadeirio'r Ford Gron Genedlaethol ar Gam-drin ac Ecsbloetio Plant yn Rhywiol. | Mae gwybodaeth am y gwaith yma ar dudalen 88. |

# Amddiffyn hawliau, ble bynnag rydych chi

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith o ddydd i ddydd

### Gwaith o ddydd i ddydd

Bydd ein gwaith dylanwadu yn sicrhau bod ein hargymhellion ynghylch bwlio, gan gynnwys seiberfwlio, a thlodi plant o gyhoeddiadau allweddol yn cael eu gweithredu'n llawn.

### Allbynnau

Yn 2016, rhannodd dros 2,000 o blant a phobl ifanc eu profiadau o fwlio trwy Dasg Arbennig, ac fe wnaethon ni gynnwys canlyniadau hynny yn ein hadroddiad, **'Stori Sam'**. Roedd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys cyfres o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru ac eraill. Yn y blynyddoedd ers hynny rydyn ni wedi sicrhau'n gyson bod y profiadau a rannwyd gyda ni yn cael eu codi gyda'r Llywodraeth trwy ymgysylltu â swyddogion a Gweinidogion, ac â gweithwyr proffesiynol trwy gyhoeddi cyfres o adnoddau gwrthfwlio. Yn 2019, lansiodd y Llywodraeth ganllawiau gwrthfwlio newydd, **Hawliau, Parch a Thegwch**. Roedd hyn yn ymateb cadarnhaol i'm galwadau am ganllawiau gwrthfwlio statudol wedi'u llywo gan blant a phobl ifanc ac mae'n ymdrin â llawer o'r argymhellion yn fy adroddiad stori Sam, gan gynnwys nodi sut bydd bwlio'n cael ei gofnodi a'i fonitro, a sut bydd gwrthfwlio'n cael ei wreiddio mewn dull gweithredu ysgol gyfan.

# Bod yn atebol i blant yng Nghymru

## Beth yw'r broblem y soniodd plant a phobl ifanc wrthyn ni amdani?

Mae'r gyfraith a sefydlodd y swyddfa yn datgan y dylai'r Comisiynydd amddiffyn a hyrwyddo hawliau a lles plant yng Nghymru. Yn ein barn ni, os yw'r Comisiynydd i fod yn bencampwr plant mewn gwirionedd, mae'n rhaid iddi fod yn atebol i blant y wlad am y penderfyniadau a'r camau gweithredu a allai effeithio ar eu bywydau.

# Bod yn atebol i blant yng Nghymru

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

| Prosiect | Allbynnau |
| --- | --- |
| Byddwn ni'n sicrhau bod ein swyddfa mor hygyrch â phosibl i staff ac aelodau o'r cyhoedd. | **Trwydded Widgit a hyfforddiant**<br>Gall symbolau Widget helpu defnyddwyr o bob oed a gallu a chefndir sy'n cael trafferth gyda thestun neu gyfathrebu mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau.<br><br>Fe sicrhaon ni drwydded gan Widgit sy'n caniatáu i ni ddefnyddio'u symbolau cyfathrebu. Rydyn ni wedi ymrwymo i gynhyrchu fersiynau hygyrch o'n holl adnoddau ac adroddiadau, gan ddefnyddio'r symbolau hyn.<br><br>Cwblhaodd 8 aelod o staff hyfforddiant gan y cwmni ar greu cyfathrebu hygyrch.<br><br>**Cynlluniau gwersi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**<br>Buon ni'n gweithio gydag athro o Ysgol Heronsbridge ym Mhen-y-bont i greu 10 gwers ar hawliau plant i blant a phobl ifanc ag ADY.<br><br>Cynhyrchon ni hefyd fersiwn symbolau **Widgit** o'n hadroddiad Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn ogystal â darparu adnoddau hygyrch ar gyfer Tasgau Arbennig tymhorol rydyn ni'n eu cynnal ar gyfer ein cynllun Llysgenhadon ysgol a chymuned. |

# Bod yn atebol i blant yng Nghymru

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

| Prosiect | Allbynnau |
|---|---|
| Byddwn ni'n sicrhau bod ein paneli ymgynghorol, gan gynnwys ein panel pobl ifanc, yn cael effaith ystyrlon ar ein gwaith. | Gallwch chi ddarllen mwy am waith ein paneli ymgynghorol eleni ar dudalen 59, gan gynnwys sut maen nhw wedi helpu i ddylanwadu ar ein cynllun gwaith. |
| Byddwn ni'n sicrhau bod yr wybodaeth rydyn ni'n ei phrosesu yn cael ei rheoli'n gyfrifol. | Fel rhan o'n rhaglen dreigl o adolygu, rydyn ni wedi sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau mewnol perthnasol yn cael eu diweddaru i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyfredol. Rydyn ni hefyd wedi ymateb i bob cais rhyddid gwybodaeth yn brydlon. |
| Byddwn ni'n adolygu effaith ein cynllun tair blynedd cyntaf ac yn cyhoeddi'r canfyddiadau. | Gallwch chi ddarllen mwy am ein gwerthusiad tair blynedd **yma** a lawrlwytho copi o'r adroddiad ei hun **yma**. |

# Bod yn atebol i blant yng Nghymru

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

### Gwaith o ddydd i ddydd

Byddwn ni'n gweithio gyda Senedd Ieuenctid newydd Cymru i sefydlu mecanwaith ar gyfer craffu'n flynyddol ar y Comisiynydd gan y corff hwn, a etholwyd yn ddemocrataidd.

### Allbynnau

Eleni, ymddangosodd y Comisiynydd gerbron is-bwyllgor Senedd Ieuenctid Cymru ar iechyd meddwl, er mwyn i'r aelodau graffu ar waith ein swyddfa mewn perthynas â iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Bu'r Comisiynydd hefyd yn annerch holl aelodau Senedd Ieuenctid Cymru ochr yn ochr â'r Gweinidog Addysg, fel rhan o'u sesiwn ar y cwricwlwm newydd.

Rydyn ni hefyd wedi bod yn gweithio gyda nhw ar ddarn allweddol o waith ymgysylltu, sy'n ceisio casglu barn plant a phobl ifanc yn ystod y pandemig.

---

Byddwn ni'n sicrhau bod ein gwaith cyfranogiad yn cael ei dywys gan Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru.

Mae ein strategaeth gyfranogiad, a ddiweddarwyd eleni, yn sicrhau ein bod ni'n cadw at y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

# Bod yn atebol i blant yng Nghymru

## Beth wnaethon ni am hyn?
## Gwaith prosiect

| Gwaith o ddydd i ddydd | Allbynnau |
|---|---|
| Byddwn ni'n adrodd am ein gwaith, gan gynnwys ein gwaith ariannol a risgiau, i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'n paneli ymgynghorol bob chwarter. | Bob chwarter rydyn ni'n adolygu effaith ac effeithiolrwydd ar draws y sefydliad trwy gerdyn sgorio cytbwys. Mae'r dull yma'n golygu ein bod ni'n gallu gweld pa mor effeithiol ac effeithlon ydyn ni ar draws 4 maes allweddol:<br><br>**1. Prosesau sefydliadol**<br>**2. Pobl y Comisiynydd**<br>**3. Plant a phobl ifanc**<br>**4. Cynaliadwyedd ariannol y Comisiynydd a gwerth am arian.**<br><br>Rhennir canlyniadau'r rhain gyda'n Pwyllgor Archwilio bob chwarter. Gallwch chi ddarllen mwy am waith ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ein adroddiad Cyllid ar ein gwefan (o dan 'Cyhoeddiadau') a'n paneli Ymgynghorol yma dudalen 59. |
| Byddwn ni'n gweithio mewn modd cynaliadwy, ac yn ceisio gwreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ein hymarfer. | Mae'r Comisiynydd yn dal yn gyfranogwr gweithredol ym mhanel ymgynghorol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac rydyn ni'n parhau i rannu adnoddau, gan gynnwys Pennaeth AD a Swyddog Cyfrifyddu dirprwyedig interim am gyfnod eleni.<br><br>Eleni datblygon ni **Gynllun Bioamrywiaeth** newydd i sicrhau ein bod ni'n gwneud ein rhan fel sefydliad i leihau ein hôl-troed carbon a sicrhau bioamrywiaeth.<br><br>Gallwch chi ddarllen mwy am sut rydyn ni'n cadw at egwyddorion y Ddeddf hon yn ein adroddiad Cyllid ar ein gwefan (o dan 'Cyhoeddiadau'). |

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau eraill?

Mae ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor ar gael am ddim ac yn gyfrinachol. Mae yno i Mae ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor ar gael am ddim ac yn gyfrinachol. Mae yno gynghori a chefnogi plant a phobl ifanc neu'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw neu'n gweithio drostyn nhw os byddan nhw'n teimlo bod plentyn wedi cael triniaeth annheg. Cysylltodd 627 o bobl â'r gwasanaeth yn 2019l20, yn aml yn codi pryderon ynghylch mwy nag un mater.

## Pa faterion gwnaeth pobl gysylltu â ni amdanyn nhw?

| | |
|---|---|
| **Addysg** | **424** (AAA: 102, Cwynion: 90, Cyngor: 79, Lleoliad: 26, Bwlio: 21) |
| **Gwasanaethau** Cymdeithasol | **410** (Cwynion: 136, Cyngor: 64, Darparu Gwasanaeth: 61, Lleoliad: 51) |
| **Iechyd** | **109** (Cwynion: 31, Darparu Gwasanaeth: 27, CAMHS: 24, Cyngor: 14) |
| **Cyfreithiol** | **91** (Cyngor: 73) |
| **Yr Amgylchedd** | **83** (Cyngor: 28, Hawliau Plant: 13) |
| **Materion eraill awdurdod lleol** | **36** (Cwynion: 12, Darparu Gwasanaethau: 6) |
| **Tai** | **35** (Lleoliad/llety: 15, Cyngor: 7, Cwynion: 7) |
| **Yr Heddlu** | **16** (Cwynion: 8, Cyngor: 6) |
| **CAFCASS** | **12** |
| **Lloches** | **9** |

## Pwy gysylltodd â ni yn y lle cyntaf?

**Rhiant – 348**
**Aelod o'r cyhoedd – 25**
**Aelod o'r Teulu estynedig – 60**
**Plentyn neu berson ifanc – 18**
**Aelod etholedig – 8**
**Gweithiwr proffesiynol arall – 32**
**Gofalwr Maeth – 27**
**Gwasanaeth eiriolaeth – 13**

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau eraill?

**Roedd y canlyniadau'n cynnwys:**

## Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (SEBD) – Enghraifft o brofiad a arweiniodd at brosiect Ymddygiad a Chynhwysiad

**Mater a godwyd** – Galwodd rhiant ni oherwydd bod yr awdurdod lleol wedi gosod eu plentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mewn darpariaeth newydd, lle roedd y rhiant yn credu na allai'r plentyn gael ei gadw'n ddiogel. O ganlyniad, roedd y cyfathrebu rhwng y rhieni a'r ysgol wedi torri lawr i'r graddau bod y rhiant yn ystyried tynnu'r plentyn allan o'r lleoliad.

**Gweithredu** – Cododd y Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor y pryderon diogelu gyda'r awdurdod lleol a'r ysgol, a gwneud awgrymiadau ynghylch sut i wella'r cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r rhiant er mwyn sicrhau bod cyfathrebu'n gallu digwydd eto er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn brofiad cadarnhaol i'r plentyn a'r rhiant.

**Canlyniad** – Fe wnaeth y pennaeth a'r rhiant gyfarfod, rhoddwyd protocolau cyfathrebu yn eu lle, ac arhosodd y plentyn yn yr ysgol. Roedd yr achos hwn yn un o nifer o wahanol achosion a arweiniodd at y swyddfa'n ymgymryd â phrosiect ynghylch profiadau plant oedd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn y cyfnod Sylfaen yn yr ysgol.

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau eraill?

## Plentyn ag Anabledd – Darparu cefnogaeth i gynorthwyo gydag addysg

**Mater a godwyd** – Galwodd rhiant ni oherwydd bod ar eu plentyn, oedd ag arthritis difrifol, angen ysgrifennydd yn yr ysgol i'w helpu i wneud gwaith ysgol. Roedd adroddiadau meddygol yn cefnogi'r cais. Dywedodd y rhiant fod yr ysgol yn gwrthod darparu ysgrifennydd, gan ddweud eu bod yn methu gwneud hynny. Fodd bynnag, honnai'r rhiant fod ysgrifennydd wedi cael ei ddarparu ar gyfer y plentyn cyn arolygiad Estyn, ond bod hynny wedi peidio ar ôl yr arolygiad.

**Gweithredu** – Bu'r Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor yn trafod y sefyllfa gyda swyddog cynhwysiad yr awdurdod lleol a'r cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ysgol. Er bod y sefyllfa rywfaint yn fwy cymhleth nag yr esboniwyd, ymddangosai nad oedd asesiadau ac adroddiadau priodol wedi cael eu cwblhau. Soniodd y Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor y gallai'r ysgol fod yn torri Deddf Cydraddoldeb 2010 pe na bai asesiadau ac adroddiadau o'r fath yn cael eu darparu.

**Canlyniad** – Cwblhawyd asesiadau ac adroddiadau, ac yn y pen draw cyflogodd yr ysgol ysgrifennydd llawn amser, fel bod modd i'r person ifanc gynyddu nifer y pynciau roedd yn eu hastudio.

### Adborth o achosion

"Roeddwn am fynegi ein diolchgarwch i chi am eich holl help ac amser yn ein helpu i ddarganfod ble roedd ein merch ar y rhestr aros"

"Gwasanaeth gwych, a chyflawnwyd pethau'n gyflym. Diolch yn fawr"

"Rwy'n ddiolchgar am eich cyngor ar y mater. Hyd yma cafwyd ymateb cadarnhaol yn yr ystyr eu bod wedi rhoi oriau CP ar gyfer yr haf a mis Hydref. Rwy'n gwneud cyfraniad ariannol, ond mae'n dal yn ganlyniad da"

"Ateb cyflym a hyderus i ymholiad. Diolch"

"Diolch am eich e-bost a'r holl wybodaeth. Rwy'n teimlo bod gen i lawer mwy o ffocws nawr ar beth mae angen i ni wneud nesa"

"diolch am eich amser... rwy'n gwerthfawrogi eich adborth a'ch ymateb diffuant; chi yw'r unig berson sydd wedi gwneud hyn."

"Diolch am yr awgrymiadau ar gyfer ffyrdd posibl i'w hystyried. Mae'n bosib iawn y byddan nhw'n dwyn ffrwyth. Diolch hefyd am yr e-bost dilynol yn crynhoi ein sgwrs. Roedd hynny o gymorth mawr i mi gyfeirio ato yn y dyfodol ac i'w drosglwyddo i'm cydweithwyr"

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau eraill?

## Enghraifft o achos

Mae'r achos canlynol yn cynrychioli'r math o bryder sy'n gallu dod i'n sylw trwy'r gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor, gan amlygu'r angen am ymdrin â materion mwy systemig a chysylltiedig â pholisi, yn yr achos hwn sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn lleoliad penodol yn cael eu diogelu. Mae'n amlygu sut bu ein timau Ymchwiliadau a Chyngor a pholisi yn gweithio ar y cyd i gefnogi unigolion, ond hefyd i yrru newid systemig ledled Cymru.

Ym mis Medi 2019 cysylltodd disgybl mewn ysgol annibynnol yng Ngogledd Cymru â'm swyddfa mewn perthynas â phryderon diogelu ynghylch pennaeth yr ysgol, yn credu bod yr ysgol ac awdurdodau eraill wedi methu ymateb yn briodol i'r pryderon oedd wedi cael eu codi. Roedd y person ifanc wedi dod yn ymwybodol o hawliau plant a gwaith ein swyddfa yn ystod ymweliad rheolaidd gan y Comisiynydd â grŵp o bobl ifanc yng ngogledd Cymru.

Cychwynnodd cyswllt y person ifanc â'r swyddfa gyfnod dwys o waith gan y Comisiynydd a'n timau Ymchwiliadau a Chyngor a Pholisi er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn yn effeithiol rhag ymddygiad amhriodol y pennaeth.

Fe gododd hefyd nifer o faterion polisi a rheoliadol ynghylch y fframwaith gweithredu ar gyfer Ysgolion Annibynnol, rhywbeth yr ydym wedi'i godi ac yn dal i fynd ar ei ôl gyda Llywodraeth Cymru ac eraill.

>>>

# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau eraill?

Fe benderfynon ni fod tair elfen i'n gwaith mewn perthynas â'r achos hwn.

Yn gyntaf, byddai'r swyddfa'n parhau i roi cefnogaeth uniongyrchol i'r person ifanc dan sylw yn yr achos. Sefydlodd y swyddog Ymchwiliadau a Chyngor berthynas gefnogol gyda'r person ifanc, a byddai'n parhau i siarad â nhw, ac â gweithwyr proffesiynol eraill lle roedd hynny'n berthnasol, i sicrhau bod ganddyn nhw'r cyngor, y gefnogaeth a'r wybodaeth angenrheidiol. Buon ni hefyd yn cynnig y gefnogaeth yma i unrhyw unigolion eraill a gysylltodd â'n gwasanaeth.

Yn ail, roedd yn bwysig ein bod ni ddim yn ymyrryd ag ymchwiliad gwasanaethau cymdeithasol oedd yn dal ar waith, heblaw i sicrhau bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo'n briodol ac yn brydlon. Fe arhoson ni mewn cysylltiad â'r awdurdod lleol ac eraill i wneud yn siŵ bod hynny'n digwydd ac i sicrhau bod y person ifanc dan sylw yn cael gwybodaeth briodol yn barhaus.

Yn drydydd, fe geision ni gynnal trafodaeth gydag asiantaethau perthnasol ynghylch y gwendidau deddfwriaeth a pholisi oedd yn cael eu hamlygu gan yr achos hwn. I'r diben hwn, fe gychwynnon ni drafodaethau gydag Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru, gyda golwg ar gydweithio i ddeall goblygiadau llawn y newidiadau a fyddai'n angenrheidiol i sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn ysgolion annibynnol yn cael eu diogelu'n briodol a'u cadw'n ddiogel.

Bu'r Comisiynydd yn ymwneud yn bersonol â'r gwaith yma, yn adolygu dogfennau ac adroddiadau, yn sbarduno cyswllt ag uwch swyddogion mewn asiantaethau perthnasol, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, Arolygiaeth Gofal Cymru, ESTYN, Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, Swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams.

>>>


# Sut rydyn ni wedi cyflawni ein hymrwymiadau eraill?

Un o'r materion polisi allweddol yr ydym wedi mynd ati i'w hyrwyddo'n weithredol yn sgîl hyn yw bod athrawon mewn Ysgolion Annibynnol yng Nghymru yn cofrestru gyda'r rheoleiddiwr proffesiynol yng Nghymru: Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC). Ar hyn o bryd does dim gofyn eu bod nhw'n gwneud hynny, yn wahanol i'w cymheiriaid yn y sector ysgolion a gynhelir. O ganlyniad, maen nhw y tu hwnt i allu'r rheoleiddiwr i gynnal gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer ac i orfodi gorchmynion disgyblu neu gyfyngiadau ar eu cyflogaeth. Gallai hynny arwain at fethiant annerbyniol i ddiogelu plant a phobl ifanc yn effeithiol.

Ymatebodd y Gweinidog Addysg yn gadarnhaol i'r alwad hon, gan ofyn i'w swyddogion ddechrau gweithio ar y newid rheoliadol a fyddai'n ofynnol i sicrhau bod pob athro mewn ysgolion annibynnol yn cofrestru gyda'r EWC, ynghyd â rhai newidiadau ychwanegol i'r rheoliadau ar gyfer ysgolion Annibynnol yng Nghymru.

Gofynnwyd hefyd i'r Comisiynydd ddarparu datganiad tyst i'r Ymchwiliad Annibynnol i mewn i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) yn benodol mewn perthynas â'r ysgol hon, a gallai fod gofyn iddi roi tystiolaeth i'r ymchwiliad yn ddiweddarach. Mae hyn yn rhan o ymchwiliad ehangach maen nhw'n ei gynnal ynghylch ysgolion annibynnol, ac mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno datganiad tyst pellach ar gyfer hynny hefyd.

Mae gwaith yn parhau er mwyn dylanwadu ar y newidiadau angenrheidiol sy'n ofynnol i wella cadernid amgylchedd diogelu ysgolion annibynnol. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r ysgol unigol dan sylw, diswyddwyd y pennaeth yn gynnar yn 2019, ac mae newidiadau eraill wedi cael eu gwneud yn yr ysgol sy'n cyfrannu at amgylchedd llawer mwy diogel ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r tîm yn dal mewn cysylltiad â'r ysgol trwy'r Cyngor Rheoli a'r pennaeth newydd, a bydd yn cynnig hyfforddiant hawliau plant i'r holl staff, ar ben y cyfoeth o ddeunyddiau, adnoddau a chyngor a ddarparwyd eisoes i'w cefnogi.


Mae ein paneli ymgynghorol dal yn cael effaith gadarnhaol ar ein gwaith. Dyma eu sylwadau.

# Barn ein paneli ymgynghorol

**Gair gan gadeirydd y panel ymgynghorol, Margaret Provis**

**Rôl**
I grynhoi, dyma sut mae'r panel ymgynghorol anstatudol yn cynghori'r Comisiynydd a'i thîm:

1. **Cyfeiriad strategol: rydyn ni'n darparu persbectif allanol ar gynllunio a chyflawni cynlluniau gwaith blynyddol y Comisiynydd.**
2. **Prosiectau: rydyn ni'n gweithio gyda'r tîm fel ymgynghorwyr ar ddarnau allweddol o waith.**
3. **Ymgynghorwyr arbenigol: rydyn ni'n rhannu ein gwybodaeth, ein profiad a'n harbenigedd gyda'r Comisiynydd a'i thîm o staff yng nghyswllt amrywiol agweddau ar eu gwaith.**

**Aelodau newydd**

Fe wnaethon ni groesawu aelodau newydd i'r panel eleni, yn dilyn ymgyrch recriwtio gyhoeddus a ddenodd nifer fawr o ymgeiswyr ag amrywiaeth o ddiddordebau a chefndiroedd. Mae pob un o'n haelodau newydd yn dod â chyfoeth o wybodaeth a phrofiad ac awydd i hyrwyddo hawliau plant yn effeithiol a bod yn ffrind beirniadol i'r Comisiynydd.

**Blwyddyn ddigynsail**

Ni welwyd blwyddyn fel hon erioed, a gellid dadlau na fu mwy o angen erioed, ar hyd 20 mlynedd ei hanes, i'r Comisiynydd fod yn bencampwr effeithiol, annibynnol i blant yng Nghymru. Nôl ym mis Mawrth, o fewn dyddiau i gyhoeddi'r cyfyngiadau symud, rhoddodd y tîm gynlluniau ar waith ar gyfer amgylchiadau o'r fath a newid i drefniadau gweithio diogel o bell, gan gadw'r llinell gyngor i fynd a lansio hwb gwybodaeth i blant a'u teuluoedd. O fewn 8 wythnos, arweiniodd y Comisiynydd arolwg o bobl ifanc 3-18 oed, y gwnaeth bron 24000 ei gwblhau. Nid yw'r lefel hon o ymgysylltu yn digwydd yn sydyn na thrwy ddamwain. Mae'n ganlyniad i ymrwymiad i ddeialog gwirioneddol a pharhaus, yn ei holl ffurfiau, gyda phlant a phobl ifanc, ymrwymiad sydd wedi'i wreiddio'i ddwfn ac yn nodweddu holl waith y Comisiynydd a'i thîm. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn allweddol i ddarparu sylfaen gredadwy o dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau polisi ac ymarfer i'r holl bartneriaid yng Nghymru.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm wedi gallu rhoi cyngor a her i'r holl bartneriaid, gan ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar bob lefel, yn aml yn ddyddiol. Maen nhw wedi parhau i gyflawni eu cynlluniau gwaith, ac mae cyfraddau salwch y staff ar y lefel isaf.

Yn y cyfnod digynsail hwn mae'r Comisiynydd a'i thîm wedi arwain trwy esiampl mewn modd ystwyth, ymatebol a chreadigol, er mwyn gallu hyrwyddo a diogelu hawliau a lles holl blant Cymru. Ar adeg pan fo'r dyfodol yn gallu teimlo'n ansicr a breuddwydion ac uchelgais yn fregus, mae'r Comisiynydd wedi estyn allan a chodi llais ag awdurdod a doethineb. Mae wedi darparu llwybr i'w ddilyn sy'n rhoi hawliau plant a phobl ifanc yng nghanol y llwyfan, ac yn golygu bod modd clywed eu lleisiau'n glir.

Fel panel ymgynghorol, rydyn ni'n boenus o ymwybodol o'r heriau mae plant a phobl ifanc, teuluoedd a sefydliadau wedi'u hwynebu yn ystod y misoedd hyn. Rydyn ni'n gwybod bod atebion wedi gorfod cael eu canfod i heriau nad oedd modd eu dychmygu flwyddyn yn ôl. Mae ymateb y Comisiynydd i hyn i gyd wedi bod yn greadigol ac yn hyblyg, ac mae hynny wedi ei galluogi hi a'i thîm i fynd ati'n gyflym i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio a pharhau'n effeithiol ac yn effeithlon, gan ymateb yn gyflym i'r realiti newydd heb golli golwg ar swyddogaethau craidd a chynlluniau gwaith. Mae hynny'n galw am ymdrech ddwys yn ogystal â chynllunio gofalus. Rydyn ni wedi gwylio hyn yn digwydd ag edmygedd a pharch mawr, ac rydyn ni wedi'n darbwyllo fwy nag erioed ynghylch gwerth a phwysigrwydd ein Comisiynydd Plant a'i thîm ymroddedig, llawn angerdd.

Byddwn ni'n bwrw ymlaen â'n rôl i gefnogi a herio cyflawniad effeithiol uchelgeisiau'r Comisiynydd a'i chylch gorchwyl deddfwriaethol.

# Barn ein paneli ymgynghorol

**M**

Dim ond eisiau dweud diolch yn fawr am ein helpu ni yn ystod cyfnod Mali ar y panel. Mae hi wedi mwynhau'n aruthrol, ac rydych chi wedi bod yn wych yn ein helpu ni.

**Z**

Roeddwn i eisiau diolch i chi am roi cyfle i fi chwarae rhan – mae wedi bod yn gwbl anhygoel gallu cyfrannu at beth o'r gwaith gafodd ei wneud yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac rwy'n meddwl bod rhai cyflawniadau gwirioneddol wedi digwydd yn y cyfnod yna. Mae'n wir wedi bod yn anrhydedd.

**E**

Roeddwn i eisiau dweud diolch yn fawr iawn am y cyfle i fod yn rhan o'r panel dros y ddwy flynedd dwythaf. Rwyf wedi wir mwynhau y profiad ac yn ddiolchgar iawn i'r holl tim yn y swyddfa am fod mor groesawgar, cyfeillgar ac 'approachable' o'r diwrnod cyntaf un! Dwi wedi dysgu llawer o'r profiad a byddaf yn methu cael bod yn rhan o'r cyfarfodydd. Gobeithio bydd disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen yn dilyn fy llwybr i wrth barhau i weithio gyda chi yn y dyfodol – dwi'n credu bod y cyfle i fod yn rhan o'r panel yn werthfawr iawn i blant ifanc a byswn i'n annog unrhyw un i gymryd rhan.

**J**

Byddwn i'n hoffi dweud DIOLCH YN FAWR wrth swyddfa Comisiynydd Plant Cymru am y botel ddŵr hyfryd. Roeddwn i'n falch o'i derbyn, ac mae fy nheulu'n ei gwerthfawrogi hefyd.

Diolch am roi'r cyfle gwych yma i fi wasanaethu ar y Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc. Rydw i wedi dysgu llawer trwy wneud hynny.

Diolch yn fawr iawn.

Y 5 egwyddor o Dull Hawliau Plant yw Ymgorfforí hawliau plant, Cydraddoldeb a Di-wahaniaethu, Grymuso, Cyfranogiad ac Atebolrwydd.

# Ein cynnydd o ran 'y ffordd gywir'

**Ym mis Mawrth 2017, fe gyhoeddon ni 'Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru', sef fframwaith egwyddorol ac ymarferol ar gyfer gweithio gyda phlant, wedi'i seilio ar Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Ei brif ddiben yw annog cyrff a sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru i fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant a fydd, yn ei dro, yn helpu i gyflawni newidiadau gwirioneddol i ansawdd bywyd beunyddiol plant a chyfle cyfartal i gyflawni eu potensial. Mae pum egwyddor yn rhan o'r fframwaith:**

**1**

**Gwreiddio hawliau plant:** dylai hawliau plant fod yn ganolog wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

**2**

**Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu:** styr hyn yw sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i wneud yn fawr o'u bywydau a'u doniau, ac nad oes rhaid i unrhyw blentyn oddef cyfleoedd gwael mewn bywyd oherwydd camwahaniaethu.

**3**

**Grymuso Plant:** ystyr hyn yw gwella galluoedd plant fel unigolion, fel eu bod yn medru manteisio'n well ar eu hawliau, ac ymgysylltu â'r unigolion a'r sefydliadau hynny sy'n effeithio ar eu bywydau, dylanwadu arnynt, a'u galw i gyfrif.

**4**

**Cyfranogiad:** ystyr hyn yw gwrando ar blant a rhoi sylw ystyrlon i'w barn.

**5**

**Atebolrwydd:** dylai awdurdodau fod yn atebol i blant am benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau.

# Ein cynnydd o ran 'y ffordd gywir'

**Yn ymarferol mae hyn yn golygu:**

## 1

**Gwreiddio hawliau plant:** CCUHP yw'r sylfaen ar gyfer ein holl waith, ac rydyn ni'n parhau i ddylanwadu ar gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i fabwysiadu dull gweithredu tebyg. Mae ein gwaith polisi a dylanwadu yn sicrhau bod cyfreithiau, polisïau ac ymarfer ar draws pob lefel o'r Llywodraeth yng Nghymru yn diogelu hawliau plant.

## 2

**Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu:** Mae ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni'r egwyddor hon trwy helpu plant unigol a'u teuluoedd sy'n teimlo eu bod yn methu troi at neb arall. Trwy brosiectau allweddol – y mae disgwyl i bob un ohonynt gael eu cynllunio gydag asesiad effaith llawn ar gydraddoldeb – rydym yn ymdrechu i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb a chamwahaniaethu yn uniongyrchol, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.

## 3

**Grymuso plant:** Mae ein gwaith cyfathrebu yn canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant a rôl y Comisiynydd, fel bod plant yn cael mynediad eu hunain i wybodaeth sy'n eu galluogi i ddeall ac ymarfer eu hawliau.

## 4

**Cyfranogiad:** Mae cyfrifoldeb ar bob aelod o'n tîm o staff i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ym mhob rhan o Gymru. Ein nod yw sicrhau bod ein holl waith gyda phlant a phobl ifanc yn gynhwysol ac yn hygyrch. Barn a safbwyntiau plant sy'n llywio pob un o'n prosiectau, ac rydyn ni wedi gwrando ar farn dros 10,000 o blant a phobl ifanc i'n helpu i lunio'r cynllun tair blynedd yma.

## 5

**Atebolrwydd:** Mae buddsoddi mewn dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn ein galluogi i ganolbwyntio mewn gwirionedd ar anghenion penodol plant, ac yn sicrhau ein bod yn creu llwyfan lle gall plant a phobl ifanc ein galw i gyfrif ynghylch yr hyn rydyn ni wedi addo ei gyflawni. Mae ein paneli ymgynghorol o bobl ifanc yn darparu cefnogaeth strategol i'r Comisiynydd a'r tîm, ac mae cynlluniau ar droed i sicrhau bod y Comisiynydd yn dod yn atebol i Senedd Ieuenctid Cymru, a etholwyd yn ddemocrataidd.

# Y Ffordd Gywir

## a. Enghreifftiau o achosion eraill

**Isod mae enghreifftiau o'r gwaith sy'n digwydd mewn gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru i roi'r ffordd gywir ar waith:**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe** oedd y Bwrdd Iechyd cyntaf i gyhoeddi siarter hawliau plant. Maen nhw nawr yn gweithio i greu fersiwn ddarluniadol o'r Siarter ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol.

Mae Bwrdd Ieuenctid Bae Abertawe, BAYouth, wedi ymwneud â gwaith amrywiol ar draws cyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys adrodd am wasanaethau pediatrig yn Ysbyty Treforys, eistedd ar baneli cyfweld a chael llais cyfartal wrth benodi aelodau staff newydd, galw am linell gymorth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc ac arwain at sefydlu hynny, a gweithio ar boster gofal pediatrig.

Sefydlodd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** eu Bwrdd Ieuenctid Iechyd tua diwedd 2018. Roedden ni'n falch o weld bod y Bwrdd Ieuenctid wedi dylanwadu ar waith y Bwrdd Iechyd mewn sawl ffordd, gan gynnwys creu siarter i'w harddangos mewn cyd-destunau ysbyty, adolygu gwasanaethau CAMHS, cyfweld â staff, rhoi hyfforddiant i staff ar hawliau plant a gweithio i gynhyrchu polisïau ar y cyd, megis rhestr wirio'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ar gyfer pobl ifanc.

Hefyd cynhaliodd y bwrdd ddigwyddiad yn 2020, lle bu'r Comisiynydd yn bresennol, i'r bobl ifanc oedd yn ymwneud â'r Bwrdd Ieuenctid Iechyd gyflwyno'u gwaith i'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac aelodau eraill uwch o'r Bwrdd. Roedden ni'n croesawu'r ffaith bod y swyddogion gweithredol uwch hyn wedi neilltuo sawl awr o'u hamser i wrando ar y Bwrdd Ieuenctid, ymgysylltu â nhw ac ateb cwestiynau ganddyn nhw.

>>>

# Y Ffordd Gywir

Cynhaliodd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Taf Morgannwg** weithdy yn 2020 gyda phlant a phobl ifanc o bob rhan o ardal y Bwrdd Iechyd, gyda Chadeirydd y Bwrdd Iechyd yn bresennol. Roedd y sesiwn yn cynnwys cyflwyniadau gan Fyrddau Iechyd eraill, oedd yn galonogol iawn i mi, ac arweiniodd at y Bwrdd yn cynnig gweithio ar Siarter gyda'r bobl ifanc, a phobl ifanc yn ymrwymo i gwrdd fel grŵp i barhau â'r sgwrs.

Mae **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** wedi sefydlu grŵp llywio 'Llais Plant a Phobl Ifanc' sy'n cwrdd yn rheolaidd i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar waith y Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn gweithio ar siarter pobl ifanc, ac mae hefyd wedi comisiynu darn o waith gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn eu hardal i gasglu barn dros 1,000 o bobl ifanc ar wasanaethau iechyd yn eu hardal leol.

Mae **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** wedi datblygu teclyn adborth '5 Uchel 5 Isel', er mwyn i leisiau plant a phobl ifanc fedru cael eu clywed am wasanaethau ysbyty, a beth maen nhw'n meddwl allai gael ei wneud i wella'u profiad ar yr uned.

Bu'r Bwrdd llawn hefyd yn cwrdd â'r Comisiynydd yn 2020 i drafod sut gallan nhw ddatblygu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant.

Daeth **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan** yn Fwrdd Iechyd cyntaf i ymrwymo i Siarter Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc yn 2019, ac yn fwy diweddar cawson nhw'r Nod Barcud Cenedlaethol am Gyfranogiad Plant, a ddyfarnwyd gan Brif Weinidog Cymru. Mae Aneurin Bevan wedi sefydlu Fforwm Hawliau Plant a Chyfranogiad, ac wedi trefnu bod y staff yn cael hyfforddiant hawliau plant.

Cynhaliodd **Bwrdd Addysgu Iechyd Powys** weithdai ar y cyd â'r awdurdod lleol, oedd yn cynnwys is-grŵp plant a phobl ifanc y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Start Well, a Fforwm Ieuenctid Powys.

>>>

# Y Ffordd Gywir

Arweiniodd y gweithdai hyn at **'Adduned Plant a Phobl Ifanc'**. Y bobl ifanc eu hunain benderfynodd eu bod nhw'n hoffi'r gair adduned yn well na siarter. Mae gwneud adduned fel hun yn galonogol, gan fod plant a phobl ifanc yn medru galw eu bwrdd iechyd i gyfri yn ôl yr addunedau hyn.

Mae **Iechyd Cyhoeddus Cymru** wedi ymgynghori â phlant a phobl ifanc yng Nghymru i gyd-gynhyrchu Datganiadau Ansawdd Blynyddol Pobl Ifanc (ar gyfer plant iau a hŷn) ochr yn ochr â'u Hadroddiadau Blynyddol. Maen nhw wedi cynnal Uwch-gynadleddau Ieuenctid Iechyd Cyhoeddus, ac mae'r adborth o'r rheiny wedi arwain at raglen Llysgenhadon Ifanc. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys cynnig 3 chyfle am interniaeth 4-wythnos yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynhaliodd **Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru** ymarferiad ymgysylltu yn gofyn i blant a phobl ifanc sut roedden nhw'n teimlo gallai'r Ymddiriedolaeth wella sut roedd yn rhyngweithio â phlant a phobl ifanc. Maen nhw wedi ymrwymo i gyfres o addewidion (a gynhyrchwyd ar y cyd â phlant) sy'n ceisio ymateb yn fwy i anghenion plant a phobl ifanc, ac sy'n cynnwys defnyddio iaith fwy priodol ar gyfer oed a dealltwriaeth.

>>>

# Y Ffordd Gywir

Mae gwaith wedi parhau i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus eraill allweddol yng Nghymru i fabwysiadu 'Y Ffordd Gywir'. Dyma flas ar y gwaith:

- **Gwaith gyda Heddlu De Cymru – Fe gyflwynon ni'r "Ffordd Gywir" i uwch swyddogion yr heddlu, cyflwyno hyfforddiant ar "Y Ffordd Gywir" i 30 o staff heddlu o wahanol luoedd, a gweithio gyda'r heddlu a disgyblion o Ysgol Pentrehafod a Chartref Plant Diogel Hillside i ddatblygu siarter plant.**
- **Cartref Plant Diogel Hillside – Fe gynhalion ni nifer o weithdai hawliau plant i'r staff (Addysg a Gweithredol) sy'n gweithio yng Nghartref Plant Diogel Hillside.**
- **Consortia Addysg – Fe gynhalion ni ddigwyddiadau hyfforddi'r hyfforddwr ar "Y Ffordd Gywir" i arweinwyr consortia addysg EAS. Fe wnaethon ni ddatblygu a pheilota modiwl hyfforddiant athrawon gyda mwy na 30 o athrawon, a rhaeadru hynny i holl arweinwyr iechyd a llesiant y consortia.**
- **Lluniwyd fersiwn derfynol o fatrics 'Y Ffordd Gywir' a'i lansio trwy weminar ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Mae'r adnodd ar gael yma i holl gyrff cyhoeddus Cymru ei ddefnyddio.**
- **Daliwyd ati i weithio gydag awdurdod lleol Wrecsam i gefnogi eu taith ar Y Ffordd Gywir.**
- **Cefnogwyd Cyfoeth Naturiol Cymru i weithio gyda dau grŵp – ysgol a chymuned – i ddatblygu siarter.**


# Arolwg Addysg Y Ffordd Gywir 2019

## Pwy oedd yn rhan o'r arolwg?

Ymatebodd cyfanswm o **7764** i'r arolwg.

**360** o athrawon a **7404** o ddisgyblion.

Daeth ymatebion o **98** o wahanol ysgolion. O'r rhain roedd **77%** yn ysgolion cynradd, **18%** yn ysgolion uwchradd, **3%** yn lleoliadau Anghenion Addysg Arbennig , a **2%** yn lleoliadau 3-16 neu 3-18.



Fy null ... bob amser fu ymateb i Lywodraeth Cymru fel ffrind beirniadol – herio'n gadarn yn ôl y galw, ond croesawu a chydnabod datblygiadau positif.

# Adroddiad blynyddol – Cerdyn Adroddiad

**Fel y nodwyd yn y rhagair i'r Adroddiad hwn, mae Tymor Senedd 2016-2021 wedi bod dan gwmwl ansicrwydd, ac mae hynny wedi cael effaith niweidiol ar gynnydd nifer o bolisïau a fyddai'n cael effaith uniongyrchol ar blant a'u teuluoedd.**

Serch hynny, cafwyd rhai llwyddiannau, ac mae'r adran hon o'r Adroddiad yn cyflwyno crynodeb byr o'r cynnydd a wnaed ar amrywiaeth o faterion ar draws meysydd cyfrifoldeb y Llywodraeth. Mae'r adran hon yn nodi'r meysydd gwaith sydd heb wneud cynnydd fel y byddwn wedi disgwyl, a'r cyfleoedd newydd y gallai Tymor Senedd newydd eu cynnig o bosib. Byddai gwersi i'w dysgu hefyd o'r pandemig, gan gynnwys elfennau arloesol o'r cyfnod yma y byddwn i'n hoffi eu gweld yn parhau.

Bydd y Deyrnas Unedig yn cael ei harchwilio gan Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn 2022, yn dilyn ymlaen o'r archwiliad diwethaf a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2016, felly bydd hyn yn myfyrio ar gynnydd Cymru yn ystod y Tymor Senedd hwn. Byddaf yn cyflwyno adroddiad ar y cyd â Chomisiynwyr Plant eraill y Deyrnas Unedig ym mis Tachwedd 2020, yn nodi'r meysydd blaenoriaeth sydd i dderbyn sylw.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## GOFAL PRESWYL AR GYFER PLANT Â'R ANGHENION MWYAF CYMHLETH

Yn rhy aml nid yw'r nifer bach o blant a phobl ifanc o Gymru sydd ag anghenion iechyd meddwl a gofal cymdeithasol cymhleth ac sydd angen cefnogaeth mewn lleoliad preswyl yn derbyn y gwasanaeth mae arnyn nhw ei angen. Dim ond un cyfleuster iechyd meddwl lefel isel o ddiogelwch sydd ar gael i blant a phobl ifanc ledled Cymru, felly'n llawer rhy aml mae plant naill ai'n cael eu lleoli mewn llety anaddas yng Nghymru, neu mewn lleoliadau preswyl lefel isel o ddiogelwch gannoedd o filltiroedd o'u cartref. Lle mae plant a phobl ifanc yn derbyn gofal preswyl mewn lleoliadau iechyd meddwl lefel isel o ddiogelwch neu fel cleifion mewnol, neu mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, yn aml nid yw'r gofal sy'n cael ei ddarparu yn ymateb i'w hanghenion, gan gynnwys anghenion emosiynol ac ymddygiadol, yn hytrach na dim ond angen iechyd meddwl y diagnosis.

### Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Yn haf 2019, trefnodd y Comisiynydd gyfarfod i ddod ag uwch-swyddogion o Lywodraeth Cymru a chynrychiolwyr uwch o wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder ieuenctid ynghyd i drafod sut mae gwneud cynnydd o ran yr angen am y llety newydd hwn. Roedd hyn yn dilyn cyfarfod blaenorol ym mis Hydref 2018 nad oedd, gwaetha'r modd, wedi arwain at unrhyw gynnydd sylweddol o ran y mater hwn.

Fel rhan o ymweliadau â phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru yn 2019/20 gofynnwyd i bob Bwrdd pa gynlluniau oedd ganddyn nhw i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Rydyn ni'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer y nifer bach o blant ag anghenion cymhleth sydd angen darpariaeth breswyl yng Nghymru eleni. Rydyn ni'n edrych ymlaen at gasgliadau'r adolygiad hwn, ac yn disgwyl camau cyflym wedi hynny i wella'r ddarpariaeth annigonol bresennol.

>>>

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## Beth sydd angen digwydd nesaf?

Ar ôl adolygu llety diogel ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ar frys i sefydlu darpariaeth breswyl newydd amlasiantaeth, wedi'i chomisiynu ac ag adnoddau, yng Nghymru, i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## EIRIOLAETH – RHOI'R DULL GWEITHREDU CENEDLAETHOL O GYFLAWNI EIRIOLAETH STATUDOL AR WAITH

Gall eiriolaeth roi cefnogaeth hanfodol i blant a phobl ifanc, a gall fod yn fodd i sicrhau bod dymuniadau a theimladau plant yn cael eu clywed yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae sicrhau bod plant cymwys yn cael mynediad at eiriolaeth wedi bod yn ffocws pwysig i bob un o'r tri Chomisiynydd Plant yn ystod eu cyfnod yn y swydd.

Wedi blynyddoedd o weithgorau ac ymchwiliad gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, cyflwynodd Llywodraeth Cymru "Gynnig Gweithredol" ar gyfer eiriolaeth, fel Dull Gweithredu Cenedlaethol cytunedig o ymdrin ag Eiriolaeth Statudol, oedd yn cynnwys mesurau i hybu'r cynnig a sicrhau cysondeb o ran caffael a chomisiynu eiriolaeth a mesur y canlyniadau. Mae'r Cynnig Gweithredol bellach yn fyw ym mhob rhan o Gymru. Mae'r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol yn nodi beth gall pobl ifanc ei ddisgwyl o'u gwasanaeth eiriolaeth annibynnol, ynghyd â Chôd Ymarfer statudol sy'n cyflwyno hawliau pobl ifanc o ran eiriolaeth.

Mae fy swyddfa wedi bod yn aelod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru ar gyfer Eiriolaeth Statudol i Blant ac yn aelod o'r Grŵp Darparwyr Eiriolaeth, sydd wedi monitro'r broses o estyn cwmpas y Cynnig Gweithredol.

>>>

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

Rydyn ni hefyd yn ymwybodol bod mynediad at eiriolaeth i blant mewn cartrefi preswyl ddim bob amser yn gyson, a bod rhai plant yn wynebu rhwystrau wrth gael mynediad i'r mesur diogelu pwysig hwn. Amlygwyd hynny gan y darparwyr eiriolaeth TGP Cymru ac adolygiad Thematig Arolygiaeth Gofal Cymru o gartrefi plant, ac mae fy nhîm wedi gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth o hyn trwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru ar Ofal Preswyl. Hefyd mae fy nhîm Ymchwiliadau a Chyngor yn parhau i fonitro mynediad at eiriolaeth a chefnogi plant i sicrhau mynediad lle nad yw wedi cael ei gynnig yn rhagweithiol. Mae fy nhîm hefyd wedi bod yn gweithio i hybu'r Cynnig Gweithredol ymhlith gweithwyr proffesiynol, a bu fy Mhennaeth Polisi yn annerch mewn Cynhadledd i Swyddogion Adolygu Annibynnol (IROs).

### Beth sydd angen digwydd nesaf?

Bydd fy nhîm yn parhau i fonitro mynediad plant at wasanaethau eiriolaeth trwy ein gwaith Polisi ac achosion ein tîm Ymchwiliadau a Chyngor.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## DILEU'R ELFEN O ELW O WASANAETHAU GOFAL PLANT

Yn 2017/18 a 2018/19, fe wnes i argymell i Lywodraeth Cymru y dylid cymryd camau pendant i leihau ac yn y pen draw i ddileu gwneud elw mewn gwasanaethau gofal plant. Rhoddwyd cafeat ar yr argymhelliad hwn, sef bod angen sicrhau nad oedd yn niweidio plant a phobl ifanc oedd yn gwneud yn dda mewn lleoliadau, p'un a oeddent yn y sector preifat, cyhoeddus neu fentrau cymdeithasol. Mae'r galwadau hyn wedi cael eu llywio gan leisiau plant a phobl ifanc, y mae llawer ohonynt yn ymwybodol iawn o'r costau sy'n gysylltiedig â'u gofal.

Mae demograffeg eang o ddarparwyr gofal yng Nghymru; mae llawer ohonynt yn ddarparwyr bychan iawn sydd wedi ymsefydlu i ddarparu gofal therapiwtig unigryw ar gyfer plant agored i niwed, gan weithredu heb fawr ddim elw, os o gwbl, ac mae nifer bach o gartrefi newydd trydydd sector yn agor yng Nghymru, er enghraifft cartrefi Action for Children yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, rwyf hefyd wedi cael gwybod bod corfforaethau mawr yn mynd ati i gaffael darparwyr llai, yn arbennig yn y sector maethu annibynnol. Yn rhy aml mae plant yn cael eu lleoli'n bell o'u teuluoedd a'u hawdurdodau lleol cartref. Mae bodolaeth elfen marchnad yn y ddarpariaeth yn gwaethygu hyn, gan fod darpariaeth gofal preifat yn aml yn clystyru mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd lle ceir tai rhatach.

Rwy'n cydnabod yn llwyr nad yw o reidrwydd yn rhatach i'r pwrs cyhoeddus ddarparu gofal i blant yn y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector. Fodd bynnag, mae fy ngalwad i ddileu elw ym maes gofal cymdeithasol plant yn ymwneud â'r egwyddorion y tu ôl i gynnig gofal, gan ddileu unrhyw gymhelliad i grynhoi elw o amgylchiadau plant agored i niwed, a sicrhau bod pob ceiniog yn cael eu gwario ar y ddarpariaeth, yn hytrach na chael eu dargyfeirio i randdeiliaid, sy'n aml yn bell i ffwrdd. Dyhead tymor hwy yw'r argymhelliad hwn, ond mae angen cymryd camau nawr i symud tuag at y nod hwn yng Nghymru.

>>>

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

Gwnaeth Prif Weinidog Cymru ymrwymiad yn ei Faniffesto arweinyddiaeth yn 2018 i ddileu'r elfen o elw mewn gwasanaethau gofal. Bu ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd ar Blant a Phobl Ifanc â phrofiad o ofal hefyd yn archwilio'r mater hwn. Bûm innau a grŵp o blant a phobl ifanc yn rhoi tystiolaeth ar y mater hwn. Rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil i lywio sut gallai Cymru ailgydbwyso darpariaeth gofal yn y sector, a bod hynny wedi'i gwblhau yn 2020.

Hyd yma, fodd bynnag, dwy ddim yn hyderus bod Llywodraeth Cymru wedi dangos arweinyddiaeth sylweddol ar y mater hwn, nac wedi ymgynghori â phlant a phobl ifanc ynghylch eu barn. Er ein bod wedi gweld rhai Awdurdodau Lleol yn gwneud rhai elfennau o'u darpariaeth yn fewnol, mae hynny'n digwydd ar lefel unigol yn absenoldeb cyfarwyddyd cenedlaethol.

## Beth sydd angen digwydd nesaf?

Byddaf yn gofyn i bob plaid wleidyddol wneud ymrwymiad i ddileu elw o wasanaethau gofal cymdeithasol plant yn eu maniffesto ar gyfer etholiadau Senedd Mai 2021.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## GADAEL GOFAL

Yn 2017, fe gyhoeddais i "Breuddwydion Cudd", adroddiad a lywiwyd gan brofiadau pobl ifanc o adael gofal. Buon nhw'n amlygu heriau cyffredin cael eu symud allan o gartrefi preswyl cyn gynted ag yr oedden nhw'n 18 oed, diffyg gwybodaeth ddefnyddiol am gefnogaeth ariannol ac anhawster yn cael mynediad i gronfeydd, ac roedd y gefnogaeth i lawer ohonynt yn dod i ben yn 21 oed. Roedd y rhain i gyd yn rhwystrau sylweddol iddyn nhw gael mynediad i gyfleoedd. Ychydig iawn o blant fyddai'n cael eu disgwyl i gychwyn eu taith at fyw'n annibynnol o 16 neu 17 oed, na'u disgwyl i gynnal eu hunain yn llawn yn ariannol, ond mae hynny'n aml yn brofiad cyffredin i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, a gall fod yn heriol iawn i lawer gael hyd i'w ffordd heb gefnogaeth gyson.

Cyflwynodd yr adroddiad argymhellion i Lywodraeth Cymru, gwasanaethau cymdeithasol, adrannau tai a gwasanaethau addysg weithio mewn modd mwy cydlynus i blant, er mwyn gwella'r cynllunio ar gyfer gadael gofal. Galwodd hefyd am gefnogaeth ychwanegol, megis eithrio o dreth y cyngor, estyn y gefnogaeth i 25 oed trwy Ymgynghorwyr Personol a'r angen am gefnogaeth ariannol a chyflogaeth.

O ganlyniad uniongyrchol i Breuddwydion Cudd, rhoddodd Llywodraeth Cymru Gronfa Dydd Gŵyl Dewi ar waith, sef i gychwyn cronfa fwrsariaeth o £1 filiwn y flwyddyn ar gyfer ymadawyr gofal, y mae modd i bobl ifanc gael mynediad iddi i brynu pethau sy'n gallu hybu pontio llwyddiannus allan o ofal iddyn nhw. Ers hynny, mae'r gronfa wedi cael ei chynyddu i gynnwys cefnogaeth ar gyfer digartrefedd ieuenctid. Rwyf wedi clywed llawer o enghreifftiau cadarnhaol o ddefnyddio'r gronfa hon, o brynu gwersi gyrru i beiriannau golchi dillad, ac o basbortau i offer.

Mae ymadawyr gofal hefyd wedi'u heithrio bellach o dalu treth y cyngor nes eu bod yn 25 oed, sy'n enghraifft bwysig o arbed arian i ymadawyr gofal ac yn neges glir am yr angen i barhau i gefnogi'r bobl ifanc hyn y tu hwnt i 18 oed.

>>>

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## Beth sydd heb symud?

Darparodd Llywodraeth Cymru £625,000 o gyllid ar gyfer cynlluniau hyfforddiant i Ymadawyr Gofal, a chynorthwyodd hynny lawer o awdurdodau lleol ledled Cymru i sefydlu cynlluniau i helpu ymadawyr gofal. Fodd bynnag, wrth weithio gydag Awdurdodau Lleol i ddilyn ymlaen o'm hadroddiad Breuddwydion Cudd ym mis Ionawr 2020, roeddwn yn pryderu wrth glywed bod rhai cynlluniau heb barhau, oedd yn pwysleisio'r angen am ffocws o'r newydd ac adnoddau ychwanegol ar gyfer y cynlluniau hyn i gefnogi pobl ifanc.

Rwyf wedi bod yn falch o weld hefyd bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol er mwyn estyn gwasanaethau Ymgynghorwyr Personol, er mwyn i bobl ifanc fedru cael mynediad i'r gefnogaeth yma hyd at 25 oed. Er fy mod i'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi atgoffa awdurdodau lleol i estyn hyn, mae'r diffyg sail statudol ar gyfer gwasanaeth Ymgynghorwyr Personol estynedig yn golygu nad oes dyletswydd gyfreithiol barhaus ar Awdurdodau Lleol i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Rwy'n pryderu nad yw'r dull pwysig yma o roi cefnogaeth wedi'i sicrhau'n llawn y tu hwnt i'r Tymor Senedd yma, ac rwy'n dal i annog y Llywodraeth i newid y rheoliadau er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn dod yn hawl statudol.

Rwy'n dal i bryderu nad yw pobl ifanc sy'n gadael gofal bob amser yn cael mynediad at dai diogel a saff. Rwy'n dal i bryderu bod ymadawyr gofal yn cael eu gorgynrychioli yn ein poblogaeth ddigartref, a bod rhai pobl ifanc yn cael eu lleoli mewn llety amhriodol, fel hostelau, llety gwely a brecwast a llety dros dro a rennir, nad yw'n lle sicr iddyn nhw ddechrau pontio i oedolaeth.

Bydd rhai pobl ifanc yn aros mewn lleoliad "Pan Fydda i'n Barod", sy'n golygu eu bod yn gallu dal i fyw gyda gofalwyr maeth nes eu bod yn 25 oed o dan rai amgylchiadau, ond mae hynny'n dal heb fod ar gael ar gyfer plant sy'n gadael gofal preswyl.

>>>

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

Yn 2019, cymerodd Llywodraeth Cymru gamau i archwilio'r opsiynau tai oedd ar gael i bobl ifanc oedd yn gadael gofal, drwy sefydlu'r Grŵp Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd ar gyfer Ymadawyr Gofal, y mae un o'm Swyddogion Polisi yn mynd iddo. Bwriad y grŵp oedd mapio darpariaeth llety a chefnogaeth i bobl ifanc, ymgynghori â phobl ifanc ar y gefnogaeth yr hoffen nhw ei chael i hybu pontio llwyddiannus i annibyniaeth ar ôl gofal, a nodi'r bylchau a'r rhwystrau oedd yn effeithio ar lwyddiant pobl ifanc ar hyn o bryd. Yna byddai'r grŵp yn datblygu set o safonau y gallai pobl ifanc oedd yn gadael gofal eu disgwyl, er mwyn darparu cefnogaeth hyblyg a sicrhau nad oedd unrhyw berson ifanc o dan anfantais oherwydd y math o leoliad oedd ganddynt cyn gadael gofal.

Mae'r gwaith hwn wedi oedi ar hyn o bryd; fodd bynnag, rwy'n deall bod parodrwydd i ailgynnull ynghylch y gwaith pwysig yma. Rwyf wedi dal i bryderu y bydd argyfwng COVID-19 yn cael effaith niweidiol ar ymadawyr gofal, sydd yn aml ymhlith aelodau mwyaf difreintiedig ein cymdeithas, yn wynebu tlodi, ynysu cymdeithasol ac effaith hir dymor unrhyw drawma cynnar a ddaeth i'w rhan.

## Beth sydd angen digwydd nesaf?

Mae rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod mynediad estynedig at Ymgynghorwyr Personol yn dod yn rhywbeth statudol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod modd i bawb sy'n gadael gofal barhau i gael mynediad at ymgynghorydd personol, hyd at 25 oed, rydyn ni'n gwybod bod amrywiadau yn sut mae hynny'n cael ei estyn a'i gyflwyno. Byddai gwneud yr hawl yma'n statudol hyd at 25 oed yn diogelu'r gwasanaeth cefnogi hanfodol hwn wrth symud ymlaen.

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut mae modd datblygu cyfleoedd i fyw'n lled-annibynnol neu â chymorth ar gyfer ymadawyr gofal sydd ddim eisiau, neu sy'n methu cael mynediad i leoliadau "Pan Fydda i'n Barod". Byddai hynny'n sicrhau bod pobl ifanc, pa fath bynnag o leoliad sydd ganddynt, yn gallu cael mynediad at gefnogaeth barhaus y tu hwnt i 18 oed.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## CEFNOGAETH YCHWANEGOL AR GYFER PLANT SYDD Â PHROFIAD O OFAL

Rwyf wedi cael fy mhlesio gan fwriad Llywodraeth Cymru i fynd ati i ddiwygio Rhianta Corfforaethol yng Nghymru, rhywbeth y bu angen ei wneud ers meitin. Mae fy Swyddfa wedi ymwneud â'r gwaith hwn ac wedi cefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i ymgynghori â phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol wrth archwilio sut gall pob gwasanaeth, megis iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau cymunedol eraill, hybu canlyniadau cadarnhaol a llesiant i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Roedd yr ymgynghoriad i newid y canllawiau cyfredol ar Rianta Corfforol i gael ei gynnal yn haf 2020, ac rwy'n ymwybodol bod y gwaith hwn wedi oedi oherwydd pandemig y Coronafeirws. Fodd bynnag, rwyf am roi anogaeth i gynnal y momentwm ynghylch y mater hwn, i sicrhau bod modd i blant a phobl ifanc weld y diwygio y buont yn rhan ohono hyd yma, ac fel nad yw'r atebion arloesol a gynigiwyd gan bobl ifanc ar gyfer gwella gwasanaethau yn cael eu colli.

Ar hyd fy nghyfnod fel Comisiynydd, rwyf hefyd wedi pryderu ynghylch y lefelau uchel o droseddoli diangen sy'n amlwg ymhlith plant mewn gofal. Daeth hyn i'r goleuni wrth weithio gyda phlant yn ystod adroddiad "Y Gofal Cywir", oedd yn archwilio profiadau plant a phobl ifanc oedd yn byw mewn cartrefi preswyl. Cyhoeddwyd y gwaith hwn yn 2016, a derbyniwyd pob un o'r pedwar argymhelliad gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys yr angen am weithio i atal plant mewn gofal rhag cael eu troseddoli'n ddiangen.

Mewn ymateb i'r gwaith hwn, sefydlodd Llywodraeth Cymru y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Gofal Preswyl, oedd yn ceisio ymateb i'r argymhellion yn Adroddiad y Gofal Cywir â newidiadau polisi. Fodd bynnag, er gwaethaf comisiynu nifer o adroddiadau ymchwil defnyddiol ar y ddarpariaeth gofal preswyl yng Nghymru, dwy ddim yn hyderus ein bod wedi gweld gostyngiad yn lefel y plant sy'n agored i gael eu troseddoli. Yn fwy diweddar mae fy swyddfa hefyd wedi cael ei chynrychioli ar y gweithgor NYAS i leihau lefelau troseddoli plant mewn gofal, ac rwyf wedi ceisio codi fy mhryderon gyda chydweithwyr yn yr Heddlu yng Nghymru trwy Fforwm Plismona Cymru Gyfan.

>>>

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## Beth sydd angen digwydd nesaf?

Mae rhaid i Lywodraeth Cymru ailgychwyn ei gwaith cadarnhaol i ddiwygio rhianta corfforaethol ar gyfer plant mewn gofal. Mae hynny'n mynd y tu hwnt i rolau gwasanaethau cymdeithasol, i rôl addysg, gwasanaethau iechyd, tai, yr heddlu a sefydliadau cymunedol, i sicrhau bod modd i blant mewn gofal gael mynediad i gyfleoedd ac nad ydynt o dan anfantais oherwydd eu cyfnod mewn gofal.

- Mae rhaid i Lywodraeth Cymru ddiwygio "rhianta corfforaethol" fel bod cyfrifoldeb ar bob sefydliad cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau'r gorau i blant sy'n methu byw gyda'u teuluoedd bellach.
- Yn y tymor hwy, gallai ymgorffori CCUHP yn llawn ac yn uniongyrchol gefnogi'r gwaith hwn i sicrhau bod dyletswydd ar y sefydliadau cyhoeddus hynny i weithredu'n gydnaws â hawliau plant, yn ogystal â chyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn cyflawni eu rolau penodol o ran cefnogi plant.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Protocol Cymru Gyfan sy'n ymrwymo i atal troseddoli plant mewn gofal yn ddiangen, i gyd-fynd â gwaith sy'n parhau gan awdurdodau lleol, yr heddlu ac eraill i wreiddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau ac yn cael ei arwain gan drawma yn eu gwaith.

# Amgylchedd y Teulu ta Gofal Amgen

## CEFNOGAETH FABWYSIADU/CYSWLLT SIBLINGIAID

Yn 2015/16, fe wnes i argymhellion y dylai Llywodraeth Cymru wella'r ddarpariaeth o ran cefnogaeth fabwysiadu i deuluoedd yng Nghymru. Roedd hynny'n cynnwys yr angen am ddarparu adnoddau ychwanegol petai angen. Derbyniwyd hynny gan Lywodraeth Cymru ac ers hynny rydym wedi gweld Llywodraeth Cymru yn cymryd camau cadarnhaol mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, i wella lefel y gefnogaeth fabwysiadu i deuluoedd yng Nghymru, gan gynnwys buddsoddi. Yn 2016/17, fe wnes i hefyd argymhellion i sicrhau bod hawliau plant i gadw mewn cysylltiad â'u siblingiaid yn cael eu hystyried yn llawn wrth gynllunio gofal mabwysiadu.

### Beth sydd wedi gwella?

Trwy greu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a sefydlu'r Bwrdd Llywodraethu rhoddwyd momentwm i sicrhau bod cefnogaeth fabwysiadu yn cael ei datblygu yng Nghymru. Yn 2019, cafodd cefnogaeth fabwysiadu yng Nghymru fuddsoddiad o £2.3 miliwn gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi golygu bod modd gwella nifer o wasanaethau cefnogi therapiwtig, ar gyfer plant a'r teuluoedd sy'n eu mabwysiadu, sy'n cael eu cyflwyno gan y gwasanaethau mabwysiadu rhanbarthol ac Adoption UK. Mae hyn wedi arwain at greu Gwasanaethau Cefnogi Addysg Therapiwtig (TESSA) ac rwy'n ymwybodol bod Adoption UK wedi gallu datblygu nifer o grwpiau rhanbarthol i blant a phobl ifanc gael mynediad iddyn nhw.

Rydym ni hefyd wedi gweld creu "Baromedr Mabwysiadu" Adoption UK, sy'n cymharu darparu cefnogaeth a phrofiadau mabwysiadwyr ar draws y pedair gwlad, sydd wedi darparu cipolwg gwerthfawr ar sut mae teuluoedd mabwysiadu yn cael mynediad at wasanaethau cefnogi hanfodol, trefniadau cyswllt, a gwasanaethau cyhoeddus eraill, fel addysg a iechyd.

>>>

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## Beth sydd heb symud?

O ran cyswllt â siblingiaid, rydym ni wedi gweld camau'n cael eu cymryd i archwilio sut mae rhoi gwell sylw i gyswllt rhwng siblingiaid wrth gynllunio gofal. Er enghraifft, mae'r Cynghrair Siblingiaid wedi cael ei sefydlu, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Plant yng Nghymru, y sector mabwysiadu a sefydliadau sy'n cynrychioli plant sy'n derbyn gofal. Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi datblygu canllaw plant ar gyfer plant, yn nodi eu hawliau a'r pethau dylen nhw eu derbyn o ran cadw mewn cysylltiad â'u siblingiaid.

Er bod camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd o ran hyn, rwy'n dal i bryderu nad yw plant o reidrwydd wedi gweld newid sylweddol mewn ymarfer ar y mater hwn. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn parhau i wthio'r argymhelliad hwn yn ei flaen, ac yn hybu hawliau plant o ran cael cysylltiad gyda'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio gofal, er enghraifft, gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru a'r Rhwydwaith Cyfiawnder Teulu. Rwyf hefyd yn ymwybodol nad yw'r gefnogaeth ar gyfer llesiant emosiynol a iechyd meddwl plant sydd wedi'u mabwysiadu bob amser yn hawl cael mynediad iddi. Rwyf wedi cael gwybod bod plant a fabwysiadwyd yn gallu cael eu hatgyfeirio i wasanaethau, CAMHS er enghraifft, ac yna'n cael clywed nad dyna'r gwasanaeth cywir iddyn nhw. Byddai rhai plant a fabwysiadwyd, fel llawer o blant eraill yng Nghymru sydd angen cefnogaeth emosiynol, ymddygiadol a llesiant, yn elwa o ddull gweithredu "Dim Drws Anghywir" gan wasanaethau, a fyddai'n sicrhau bod plant yn derbyn y gwasanaeth mwyaf priodol adeg eu hatgyfeirio. Rwy'n eiriol o blaid y model hwn yn fy adroddiad diweddar ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru.

## Beth sydd angen digwydd nesaf?

Byddaf fi'n parhau i fonitro'r cynnydd mae Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn ei wneud ar gyswllt â siblingiaid wrth gynllunio gofal mabwysiadu, ac yn gweithio i hybu'r angen am ystyried yr hawl pwysig yma i blant gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i blant.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## GOFALWYR IFANC

Mae gofalwyr ifanc yn darparu cefnogaeth aruthrol i bobl agored i niwed yng Nghymru. Trwy fy ymwneud â grwpiau gofalwyr ifanc fel rhan o'm cynllun llysgenhadon cymunedol, rwyf wedi dod yn fwyfwy ymwybodol o'r heriau mae pobl ifanc â chyfrifoldebau gofalu yn eu hwynebu, fel jyglo cyfrifoldebau gofalu gyda'u gwaith ysgol a'u bywyd cymdeithasol.

Mae llawer o ofalwyr ifanc yn ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu bob awr o'r dydd a'r nos ochr yn ochr â'u gwaith ysgol, ac mewn rhai achosion efallai mai nhw fydd yr unig berson ar yr aelwyd sy'n gallu cyflawni tasgau fel siopa a chasglu presgripsiwn. Nid yw gofalwyr ifanc bob amser yn cael eu cydnabod am eu rolau, a gallan nhw brofi rhwystrau wrth geisio cael mynediad i siopau a gwasanaethau.

Mae fy Swyddfa wedi croesawu sefydlu'r Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr gan Lywodraeth Cymru, ac mae cynrychiolydd o'm swyddfa yn mynychu'r grŵp hwnnw. Trwy'r fforwm hwn rydym ni wedi gallu nodi pa gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer gofalwyr ifanc yn ystod y cyfnod hwn, ac rydym wedi dadlau y dylai gofalwyr ifanc gael mynediad i leoedd ysgol.

Mae'r pryderon sy'n deillio o'r Coronafeirws yn dangos yr heriau rydym ni'n eu hwynebu yng Nghymru wrth adnabod gofalwyr ifanc.

### Beth sydd angen digwydd nesa?

Dylai'r cerdyn Gofalwyr Ifanc barhau i gael ei ddefnyddio'n ehangach, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

## CYFIAWNDER IEUENCTID

Mae nifer y plant sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, o ryw 5,000 yn mynd i'r system am y tro cyntaf yn 2009 i ryw 550 yn 2019. Mae hyn wedi digwydd i raddau helaeth o ganlyniad i newid ffocws sylweddol at ddull mwy ataliol a dargyfeiriol o ymwneud â chyfiawnder ieuenctid, sydd wedi atal llawer o blant rhag dod yn rhan o weithdrefnau cyfiawnder troseddol ffurfiol. Mae Cymru hefyd wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn dedfryd o garchar. Er gwaethaf hynny, mae cyflwyno gwasanaethau troseddu ieuenctid yng Nghymru wedi amrywio o ran eu heffeithiolrwydd, gydag adroddiadau arolygu diweddar Gwasanaethau Troseddu Ieuenctid yng Nghymru yn amrywio o'r da i'r annigonol.

O'r plant sy'n derbyn ymyriadau gan wasanaethau troseddu ieuenctid a'r rhai sy'n mynd i'r ddalfa, mae rhai plant yn dal i gael eu gorgynrychioli, gan gynnwys plant BAME, plant mewn gofal, a'r rhai ag anghenion cymhleth, megis anghenion dysgu ychwanegol, anghenion datblygiadol neu brofiadau o drawma.

I'r rhai sy'n mynd i'r ddalfa, mae fy swyddfa'n dal i glywed am achosion lle dyw pobl ifanc ddim yn cael eu cefnogi ar gyfer eu rhyddhau o'r ddalfa, yn arbennig o ran cefnogaeth gymunedol, megis mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chael hyd i leoliadau neu drefniadau tai priodol, sy'n gallu llesteirio'u cyfleoedd i gael canlyniadau llwyddiannus wedi dedfryd.

Mae Cymru wedi rhoi arweiniad blaengar trwy'r ymrwymiad i gydnabod hawliau plant yng nghyswllt cyflwyno cyfiawnder ieuenctid, yn arbennig wrth gyhoeddi Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru, sy'n cyflwyno rhaglen uchelgeisiol o ddiwygio ar gyfer cyflwyno cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Mae'r Glasbrint yn rhoi pwyslais ar ataliaeth, hawliau plant, a deall effaith trawma ar ganlyniadau cadarnhaol plant yng nghyswllt cyfiawnder ieuenctid. Fodd bynnag, rwy'n pryderu bod y cynnydd o ran gweithredu uchelgeisiau'r Glasbrint wedi bod yn araf ers ei gyhoeddi.

>>>

# Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

Mae fy Swyddfa a minnau hefyd yn falch ein bod wedi cydweithio'n agos â lleoliadau diogel Heddlu De Cymru a Chymru, Parc YOI a Chartref Plant Diogel Hillside, i ymrwymo i ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant.

Rwy'n dal i bryderu bod y lefelau troseddoli'n sylweddol uwch o hyd ar gyfer pobl ifanc â phrofiad o ofal, ac rwyf wedi cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru edrych yn fanylach ar y mater hwn. Mae fy swyddfa'n cael ei chynrychioli ar weithgor dan arweiniad NYAS Cymru i archwilio datblygiad posibl protocol Cymru gyfan i leihau troseddoli diangen ymhlith pobl ifanc â phrofiad o ofal, fel sy'n bodoli yn Lloegr ar hyn o bryd.

Er bod eu nifer yn fach, rwyf wedi bod yn pryderu am y plant sydd wedi cael eu cadw yn y ddalfa gan yr heddlu oherwydd diffyg llety Remand/PACE priodol, a chynrychiolwyd fy Swyddfa ar Grŵp Llywodraeth Cymru i archwilio'r mater hwn. Er bod rhai camau wedi'u cymryd i edrych ar hyn, mae diffyg darpariaeth briodol i blant yng Nghymru yn parhau.

Fe wnes i ddarparu tystiolaeth hefyd i'r Comisiwn ar Gyfiawnder i Gymru. Fel rhan o'm tystiolaeth roeddwn i'n dadlau o blaid edrych ymhellach ar ddatganoli cyfiawnder ieuenctid, a allai yn ei dro gefnogi symudiad at godi oed cyfrifoldeb troseddol o'r lefel bresennol, 10 oed, sy'n isel iawn.

## Beth sydd angen digwydd nesa?

Dylai Llywodraeth Cymru a Phartneriaid Cyfiawnder Ieuenctid wneud cynnydd ar frys yn y Tymor Senedd hwn tuag at yr uchelgeisiau a'r camau gweithredu a nodwyd yn y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn sicrhau bod modd i Gymru ddiwygio sut mae'n cyflwyno gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid er mwyn ymateb yn well i anghenion plant agored i niwed yng Nghymru.

# Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais

## AMDDIFFYN PLANT RHAG COSB GORFFOROL

Ar hyd fy nghyfnod fel Comisiynydd Plant rwyf wedi dadlau o blaid dileu amddiffyniad 'cosb resymol' o'r gyfraith, fel bod gan blant yng Nghymru yr un amddiffyniad rhag cosb gorfforol ag oedolion. Er bod y defnydd o gosb gorfforol gan rieni newydd neu iau wedi bod yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn yng Nghymru, serch hynny, arhosodd yr anghysondeb cyfreithiol hwn yn ei le. Rwyf wedi bod yn pryderu am y negeseuon mae hynny'n eu cyfleu i blant ynghylch eu hawliau i gael eu cadw'n ddiogel rhag niwed, ac mae'r gyfraith hon wedi parhau'n ddigyfnewid yng Nghymru er bod Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn wedi argymell ar sawl achlysur na ddylai'r amddiffyniad hwn barhau mewn grym yn y Deyrnas Unedig, trwy ei gyfres o Sylwadau Terfynol ar ôl archwilio parti gwladol y Deyrnas Unedig.

Rwyf wedi cyflwyno tystiolaeth i nifer o ymgyngoriadau a chasglu barn plant fel rhan o'r gwaith hwn eleni. Mae fy swyddfa hefyd wedi cael ei chynrychioli ar weithgorau ac mewn cyfarfodydd er mwyn trafod y negeseuon cyhoeddus a'r cynyddu ymwybyddiaeth sy'n deillio o'r newid hwn.

Yn 2019 cyflwynwyd y Bil Plant (Dileu Amddiffyniad Cosb Resymol)(Cymru) i'r Senedd. Rhoddais dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig fel rhan o'r craffu yng nghyfnod 1, a chyflwynwyd papur briffio i holl Aelodau'r Senedd er mwyn llywio'r cyfnodau craffu pellach.

Roeddwn wrth fy modd yn gweld y Bil yn dod yn Ddeddf trwy gyflawni Cydsyniad Brenhinol yn 2020, a bydd darpariaethau'r Ddeddf yn dod i rym ym mis Mawrth 2022, sef mis olaf fy nghyfnod fel Comisiynydd Plant.

### Beth sydd angen digwydd nesa?

Bydd fy swyddfa'n parhau i fod yn rhan o'r grwpiau rhanddeiliaid ynghylch negeseuon cyhoeddus a chymorth rhianta yn ystod y blynyddoedd sy'n dod, fel rhan o'r ymrwymiadau a wnaed wrth i'r Ddeddf fynd trwy'r system.

# Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais

## ECSBLOETIO PLANT YN RHYWIOL (CSE)

Rwy'n dal i gynnull a chadeirio bord gron genedlaethol ar ecsbloetio a cham-drin plant yn rhywiol. Mae'r ford gron hon, y mae'r pedwar heddlu, cynrychiolwyr iechyd ac awdurdod lleol, y trydydd sector a Llywodraeth Cymru yn dod iddi, yn gyfle i rannu gwybodaeth am batrymau a thestunau pryder, lledaenu arfer arloesol a modd i graffu ar gynnydd y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus o ran cyflawni yn y maes gwaith cymhleth hwn.

Mae'r ford gron, er enghraifft, wedi arwain at nodi pryderon a chamau gweithredu ynghylch Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC), rhannu gwybodaeth hanfodol am ecsbloetio gan 'county lines', ac wedi galluogi cynrychiolwyr i gynghori swyddogion y llywodraeth ynghylch yr angen am ganllawiau neu gyllid newydd.

Mewn ymateb i un o'r argymhellion mewn un o'm hadroddiadau blynyddol blaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi arwain ymarferiad peilota casglu data i safoni'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu gan awdurdodau lleol, fodd bynnag, nid yw hynny wedi arwain eto at gymryd camau i sicrhau darlun cyson o ran data cenedlaethol.

Mae adolygu'r canllawiau statudol ar Ecsbloetio Plant yn Rhywiol yn darparu cyfleoedd i ymdrin â'r argymhelliad hwn yn llawn, ac fe wnes i ymateb i'r ymgynghoriad ar y canllawiau hyn yn cyfeirio at hynny. Rwyf hefyd wedi parhau i godi'r mater hwn yn fy sesiynau bord gron ar Ecsbloetio/Cam-drin Plant yn Rhywiol.

>>>

# Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais

Awgrymwyd y gallai'r trefniadau newydd o dan y côd ymarfer ar gyfer mesur perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol ymdrin â'r mater hwn, ac fe wnes i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r cynnig hwnnw hefyd. Mae'r côd ymarfer terfynol bellach wedi'i gyhoeddi a bydd yn awr yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn adrodd faint o gyfarfodydd strategaeth sydd wedi cael eu cynnal ar ôl nodi bod plentyn mewn perygl o ddioddef ecsbloetio rhywiol. Mae hyn yn debygol o helpu i gyfleu syniad o amlygrwydd hyn yma yng Nghymru ac mae'n welliant ar y trefniadau presennol. Fodd bynnag, byddaf fi'n awr yn chwilio am sicrwydd gan Lywodraeth Cymru eu bod nhw naill ai'n gallu tystio bod darlun cenedlaethol digonol yma i lywio cynllunio (trwy gasglu data a/neu ffynonellau eraill), neu bod cynllun clir ar gyfer sut bydd hyn yn rhoi sylw i fylchau yn y data cenedlaethol a gesglir yn gyson, ochr yn ochr â llinell amser.

### Beth sydd angen digwydd nesa?

Mae angen i Lywodraeth Cymru ailddechrau gweithio ar y canllawiau statudol Ecsbloetio Plant yn Rhywiol (CSE) cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau bod darlun cenedlaethol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio i lywio'r cynllunio a'r penderfyniadau a wneir yn y tymor Senedd hwn.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

## Ymchwiliadau annibynnol i honiadau yn erbyn staff addysgu

SERVOCA oedd y Gwasanaeth Ymchwilio Annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwiliadau i honiadau o gam-drin plant a wnaed yn erbyn staff addysgu. Daeth contract SERVOCA i ben yn 2018. Mae fy swyddfa wedi bod yn trafod goblygiadau'r penderfyniad hwn i blant a phobl ifanc gyda Llywodraeth Cymru.

Mae nifer o'n pryderon cychwynnol wedi derbyn sylw, gan gynnwys cyhoeddi'r **Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo ar gyfer staff ysgolion: canllawiau diwygiedig ar gyfer cyrff llywodraethu** ym mis Chwefror 2020. Fodd bynnag, dydyn ni ddim yn gwybod pa drefniadau mae awdurdodau lleol wedi'u rhoi ar waith ac er ein bod wedi gofyn i Lywodraeth Cymru am yr wybodaeth hon, mae'n dal heb ddod i law. Gan fod gwasanaeth SERVOCA yn deillio o **Ymchwiliad Clywch** mae'n gwbl briodol bod y Comisiynydd Plant yn glir ynghylch beth sy'n cymryd ei le.

>>>

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

Rydym hefyd yn dal yn ansicr ynghylch y trefniadau Llywodraethu ar gyfer ysgolion a'u cyrff llywodraethu wrth ddilyn y gweithdrefnau a amlinellwyd yn y canllawiau uchod. Er bod y canllawiau cyfredol yn dangos yn eglur cyfrifoldeb pwy yw comisiynu ymchwiliad annibynnol ac o dan ba amgylchiadau dylai ymchwiliad o'r fath gael ei gomisiynu, nid yw'r canllawiau presennol yn dangos yn glir pwy sy'n gwirio a yw ysgolion yn dilyn y canllawiau'n briodol ac yn cynnal ymchwiliadau annibynnol priodol. Mae hefyd yn aneglur wrth bwy gallai unigolyn gwyno petai pryderon ynghylch peidio â dilyn y broses briodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ein hysbysu eu bod wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol ym mis Mehefin 2019 ac eto ym mis Rhagfyr 2019, yn gofyn am sicrwydd bod ysgolion yn deall ac yn gallu cyflawni eu rhwymedigaethau o ran penodi ymchwilwyr annibynnol. Cawson ni wybod bod yr ymatebion yn 'gadarnhaol ar y cyfan', ond nid ydym wedi'u gweld, er i ni ofyn am hynny. Dywedwyd wrthym y byddai gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda ni yn gynnar yn 2020, ac y byddai hynny'n llywio camau nesaf y Llywodraeth. Nid ydym wedi gweld dim o'r ohebiaeth hon nac wedi cael ein hysbysu ynghylch unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd.

Er mwyn i'n tîm Ymchwiliadau a Chyngor fedru cynghori ysgolion, cyrff llywodraethu a theuluoedd ynghylch y trefniadau ar gyfer ymchwiliadau o'r fath yn eu hardal nhw, mae angen i ni weld yr wybodaeth yma. Rydyn ni hefyd am gael sicrwydd bod trefniadau'n bodoli ym mhob awdurdod lleol, ac os nad oes, bydden ni'n disgwyl i Lywodraeth Cymru gymryd y camau sy'n angenrheidiol i sicrhau hynny.

## Beth sydd angen digwydd nesa?

- Dylai Llywodraeth Cymru roi i CPC y manylion maen nhw wedi'u cael trwy'r gyfres o ohebiaeth a nodwyd uchod ynghylch trefniadau pob awdurdod lleol ar gyfer ymchwiliadau annibynnol i honiadau o gam-drin plant a wnaed yn erbyn staff addysgu.
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau eglurder yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer sicrhau bod ysgolion a chyrff llywodraethu yn dilyn gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo 2020 i staff ysgolion: canllawiau diwygiedig ar gyfer cyrff llywodraethu ac os bydd angen, cymryd camau i sicrhau bod y cyrff hynny'n cael gwybod yn glir beth yw'r trefniadau ym mhob ardal awdurdod lleol.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

## Taclo bwlio a'i atal

Mae adroddiadau blynyddol blaenorol wedi gwneud argymhellion ynghylch taclo bwlio mewn ysgolion, gan fod plant a phobl ifanc wedi cyflwyno hyn i fi fel un o'u pryderon pennaf trwy fy arolwg Beth Nesa nôl yn 2015.

Eleni rwy'n falch o ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'm galwadau i sicrhau dyletswyddau statudol newydd i atal a thaclo bwlio trwy lansio canllawiau gwrthfwlio i ysgolion ym mis Hydref 2019. Mae Hawliau, Parch a Thegwch yn ganllawiau statudol ar gyfer Cyrff Llywodraethu ac Awdurdodau Lleol ac yn gofyn bod ysgolion yn datblygu polisïau gwrthfwlio cadarn wedi'u llywio gan blant a phobl ifanc, gan nodi sut bydd bwlio'n cael ei gofnodi a'i fonitro, a sut bydd gwrthfwlio yn cael ei wreiddio yn y cwricwlwm. Mae'r canllawiau'n argymell dull ysgol gyfan o wrthweithio bwlio, ar sail hawliau plant, gyda chyfranogiad yn elfen ganolog: maent hefyd wedi'u llywio'n glir yn eu cyfanrwydd gan safbwyntiau plant a phobl ifanc, gan ddefnyddio fy adroddiad Stori Sam yn arbennig.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

## Cwricwlwm i Gymru

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm newydd wedi cael eu darparu i ysgolion, ac mae cyflwyno hyn yn dangos yn eglur y dylai pob plentyn dderbyn addysg hawliau dynol lle maent yn dysgu am eu hawliau, trwyddynt ac ar eu cyfer. Mae'r disgwyl y bydd plant a phobl ifanc yn rhan o ddylunio'r cwricwlwm a dysgu penodol er mwyn datblygu dealltwriaeth o hawliau dynol yn amlwg ym Meysydd Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a Iechyd a Llesiant. Rwy'n croesawu'r cynnydd yma'n fawr.

Rwyf hefyd yn cael fy nghalonogi'n aruthrol gan gynigion Llywodraeth Cymru i ddeddfu ar gyfer Iechyd a Llesiant fel un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad ar draws y cwricwlwm, a hefyd eu cynnig i gynnwys Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb (RSE) briodol i ddatblygiad fel elfen statudol i bob plentyn a pherson ifanc 3-16, gan ddileu hawl rhieni i dynnu plant allan o'r addysg honno. Mae sicrhau bod y dysgu hwn yn orfodol yn gam hanfodol tuag at broses y mae mawr angen amdani fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth o berthnasoedd a rhywioldeb. Mae'r cynnig hwn yn eithriadol o gadarnhaol o safbwynt diogelu hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod fy ngalwad am ddyletswydd sylw dyledus i CCUHP ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu yn eu hymateb i'm hadroddiad blynyddol yn 2018-19. Wrth wrthod hyn, gwnaeth y Llywodraeth yr honiad gwallus nad oes angen dyletswydd o'r fath oherwydd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Nid yw'r honiad hwn yn dal dŵr: mae'r cwricwlwm newydd yn cynnig model sybsidiaredd lle bydd penderfyniadau am ddylunio'r cwricwlwm a phrosesau asesu yn digwydd ar lefel yr ysgol. Nid yw'r Mesur yn sicrhau bod lleoliadau ysgol unigol yn rhoi sylw i hawliau plant wrth gynllunio'r cwricwlwm ac asesu nawr, ac yn sicr ni fydd yn gwneud hynny yn y dyfodol pan fydd gan leoliadau fwy o ymreolaeth.

>>>

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

I raddau helaeth oherwydd ymrwymiad gweithwyr proffesiynol unigol, mae rhai ysgolion yng Nghymru wedi arwain gwaith rhagorol yn gwreiddio hawliau dynol plant mewn penderfyniadau. Ond yn sicr nid dyna brofiad pob plentyn. Dangosir hynny gan achosion sy'n cynnwys tynnu oddi ar y gofrestr, ynysu plant, camwahaniaethu, a diffyg cyfleoedd i gyfranogi.

Ni ddylai hawliau dynol plant gael eu gadael yn fater o siawns fel hyn. Er bod CCUHP a dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wedi cael eu cynnwys yn y canllawiau cwricwlwm drafft, bydd hynny'n gallu newid, a heb ddeddfwriaeth sy'n cynnwys hawliau plant nid oes unrhyw warant y bydd profiad plant a phobl ifanc o'r cwricwlwm newydd yn cael ei lywio gan eu hawliau dynol.

Mae'r Llywodraeth yn honni bod, "Hawliau plant yn y lle blaenaf o ran ein huchelgais ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru". Os yw hyn yn wir, alla i ddim gweld unrhyw reswm pam nad yw'r Llywodraeth yn manteisio ar y cyfle i gynnwys hyn yn y gyfraith a byddaf yn parhau i wthio am y mesur diogelu pwysig hwn ar gyfer hawliau dynol plant.

## Beth sydd angen digwydd nesa?

Byddaf yn cyflwyno tystiolaeth i'r ymchwiliad cyfnod 1 ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu, yn dadlau o blaid cyflwyno dyletswydd sylw dyledus i CCUHP o fewn y Bil hwn.

Byddaf hefyd yn cynnwys yn fy nhystiolaeth yr angen am ddiogelu ar sail statudol ddull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd a llesiant emosiynol, nid fel pwnc i'w addysgu, ond fel dull o ymdrin ag ethos ac amgylchedd cefnogi pob ysgol yng Nghymru.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

## Dewis addysgu gartref

Rwyf wedi gwneud argymhellion yn fy mhedwar adroddiad blynyddol diwethaf ynghylch addysgu gartref, gan bwysleisio'r angen am newid statudol i ddiogelu hawliau plant, gyda'r nod o fodloni'r tri phrawf canlynol yn llawn:

- **Yn gyntaf, bod modd rhoi cyfrif am holl blant Cymru, heb i neb ohonyn nhw lithro o dan radar y gwasanaethau sydd i bawb, a chymdeithas yn gyffredinol.**
- **Yn ail, bod pob plentyn yn cael addysg addas a'u hawliau dynol eraill, gan gynnwys iechyd, gofal a diogelwch.**
- **Does dim modd cyflawni hyn heb y trydydd nod, sef bod pob plentyn cael cyfle i gael eu gweld a bod eu barn, gan gynnwys eu barn am eu haddysg a'u profiadau yn cael gwrandawiad.**

Fel mae fy swyddfa wedi nodi mewn gohebiaeth, cyfarfodydd a thystiolaeth i bwyllgorau ar hyd fy nghyfnod fel Comisiynydd, mae'n hen bryd rhoi'r newid polisi hwn yn ei le, gan fod ymateb Llywodraeth Cymru i farwolaeth Dylan Seabridge a'r Adolygiad Ymarfer Plant dilynol yn annigonol ac yn anghyflawn heb gyflwyno mesurau newydd sydd â grym statudol. Adlewyrchir y farn hon gan yr adroddiad a gomisiynwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn 2017, lle'r argymhellwyd llunio cofrestr o'r holl blant sy'n derbyn eu haddysg gartref, yn ogystal â bod plant yn cael eu gweld o leiaf unwaith y flwyddyn.

>>>

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannolt

Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'm hadroddiad blynyddol ar gyfer 2017-18 ar 30 Tachwedd 2018, yn derbyn y tri phrawf yma ar gyfer y polisi, ac yn 2019 cyflwynwyd Canllawiau Statudol drafft ganddyn nhw a Llawlyfr i Addysgwyr Gartref. Ym mis Ionawr 2020 cyhoeddwyd Rheoliadau Drafft cronfeydd data newydd i awdurdodau lleol er mwyn nodi ble mae plant yn cael eu haddysg ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Y bwriad oedd gweithredu newid statudol yn 2020. Fe wnes i ymateb yn gynhwysfawr i'r ddau ymgynghoriad, yn croesawu'r camau a gymerwyd i gryfhau gallu awdurdodau lleol i sicrhau bod plant yn derbyn eu hawliau dynol, gan gynnwys eu hawliau i addysg, cyfranogiad a diogelwch. Fe wnes i hefyd amlygu bylchau posibl y dylid eu cryfhau ymhellach trwy'r broses ailddrafftio a thrwy werthuso.

## Beth sydd angen digwydd nesa?

Fel y cyhoeddwyd ym mis Medi 2020 rwy'n defnyddio fy mhwerau statudol i adolygu swyddogaethau'r Llywodraeth yng nghyswllt y maes hwn o lunio polisi. Bydd adroddiad statudol yn dilyn.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannolt

## Deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol

Pasiwyd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 gyda dyletswydd ar yr holl gyrff perthnasol o dan y Ddeddf i roi sylw dyledus i CCUHP a CCUHPA ar wyneb y Bil. Mae'r Ddeddf yn cwmpasu plant a phobl ifanc 0-25 oed ac fe gyflwynodd ddyletswyddau statudol i fyrddau iechyd lleol. Nawr bydd gan y Tribiwnlys Addysg bwerau dros gyrff iechyd o dan y Ddeddf, gan gynnwys y gallu i wneud cais am dystiolaeth ac adroddiadau ar gyfer apeliadau.

Bu'r Côd Ymarfer drafft a'r Rheoliadau yn destun ymgynghori yng ngwanwyn 2019 ac roedd yn amlwg bod angen camau pellach i ddatblygu'r Côd drafft yma, i'w wneud yn fwy defnyddiadwy a chadarn, ac i sicrhau ei fod yn gwreiddio hawliau plant yn llawnach ar draws eu profiad addysgol.

Yn hydref 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru oedi yng ngweithrediad y Ddeddf, a rhoddodd cyllideb 2020-21 hwb ariannol i'r system AAA gyfredol. Mae'r buddsoddiad hwn yn hanfodol er mwyn i blant a phobl ifanc fedru cael eu cefnogi ar unwaith, a bydd hefyd yn helpu i gynyddu capasiti ledled Cymru cyn i'r gyfraith newydd ddod i rym.

### Beth sydd angen digwydd nesa?

Mae'n rhaid gosod y côd ymarfer ADY a ailddrafftiwyd ac y bu oedi yn ei gylch gerbron y Senedd er mwyn symud ymlaen i weithredu Deddf 2018. Mae hefyd yn hanfodol nad yw'r buddsoddi ychwanegol yn y sector ADY yn ddigwyddiad untro, ac mae'n rhaid i hyn barhau wrth i'r system newydd ddatblygu er mwyn sicrhau ei llwyddiant.

# Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannolt

## Ysgolion Annibynnol

Mae angen newid bylchau yn y fframwaith rheoliadol cysylltiedig ag Ysgolion Annibynnol, a hynny ar frys, er mwyn diogelu plant mewn lleoliadau annibynnol yn well. Bu fy nhîm a minnau'n trafod hyn yn rheolaidd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod blwyddyn 2019-20, ac ym mis Mawrth 2020 roedd y Llywodraeth yn dechrau gweithio ar newidiadau i'r fframwaith rheoliadol, gyda bwriad i gynnal digwyddiad i randdeiliaid ar gyfer y sector annibynnol, gyda chefnogaeth fy swyddfa.

Mae angen newid y rheoliadau i gynnwys gofyniad bod yr holl staff addysgu a'r holl arweinyddion ysgol (gan gynnwys y rhai sydd â rôl heblaw addysgu) yn cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC). Gwnaed ymrwymiad yn flaenorol i adolygu a ddylid cynnwys staff ysgolion annibynnol yng nghofrestriad yr EWC gan y Gweinidog Addysg ar y pryd, Huw Lewis, ym mis Ionawr 2014 yn ystod newidiadau cyfnod 2 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, ac ategwyd hynny mewn datganiad ysgrifenedig ym mis Mawrth 2016. Mae'n werth nodi bod teimladau cryf ynghylch hyn yn yr ymatebion ymgynghori i'r Bil, oedd yn tynnu sylw at fwlch oedd yn golygu nad oedd rheidrwydd ar staff ysgolion annibynnol i gofrestru, bwlch oedd yn dod â risg diogelu yn ei sgîl.

Mae gwaith achosion a dderbyniwyd gan fy swyddfa yn ystod eleni yn ategu pwysigrwydd cau'r bwlch hwn er mwyn amddiffyn plant yn well. Dylai'r newid hwn fod yn rhan o ddiwygiad y bu disgwyl hir amdano ar y rheoliadau ehangach ynghylch yr EWC, sydd ar hyn o bryd yn golygu bod plant yn wynebu mwy o risg nag y dylen nhw. Dylai'r diwygiadau hyn alluogi'r EWC i weithredu Gorchmynion Atal Interim (fel yr ymgynghorwyd yn eu cylch yn 2018) a dylen nhw hefyd ystyried cofrestru'r gweithlu myfyrwyr, a gweithwyr ieuenctid sydd heb gymhwyso.

### Beth sydd angen digwydd nesaf?

Dylai Llywodraeth Cymru newid y fframwaith rheoliadol yng nghyswllt ysgolion annibynnol a Chyngor y Gweithlu Addysg i gynnwys gofyniad bod yr holl staff addysgu a'r holl arweinwyr ysgol mewn lleoliadau annibynnol yn cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC).

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## TLODI

Tlodi yw un o'r materion hawliau dynol pwysicaf sy'n effeithio ar blant yma yng Nghymru. Mae'n destun pryder mai plant o hyd yw'r grŵp oedran sy'n fwyaf tebygol o fod yn byw mewn tlodi **incwm cymharol**.

Galwodd argymhelliad adroddiad blynyddol y llynedd am gyhoeddi cynllun cyflawni a fyddai'n nodi'n fanwl sut bydd adrannau ar draws Llywodraeth Cymru yn cymryd camau ymarferol i liniaru a mynd i'r afael ag effaith tlodi plant a rhoi sylw i argymhellion fy **Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn Plant Cymru rhag Effaith Tlodi**.

Y costau cysylltiedig â'r ysgol oedd y mater a godwyd ar lefel fwyaf arwyddocaol gan y plant, y bobl ifanc, y rhieni/gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol a gyfrannodd at yr adroddiad hwnnw. Ymhlith yr enghreifftiau roedd plant yn methu fforddio digon o fwyd a diod yn ystod y diwrnod ysgol, costau gwisg ysgol a mynediad at gynnyrch hylendid. Amlygodd sgyrsiau gydag oedolion hefyd ansicrwydd bwyd yn ystod gwyliau'r haf a gwerth sicrhau bod gwaith a pholisi yn cydweddu â'i gilydd.

Dyma fu prif ffocws fy ngwaith ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi:

- **Sbarduno ymrwymiad a gweithredu gan Lywodraeth Cymru i gymryd camau tymor byr a chanolig, gan gynnwys y rhai a amlinellwyd yn fy adroddiad, sy'n cyflawni newidiadau amlwg i blant a phobl ifanc;**
- **Dadlau dros bwysigrwydd hawliau plant yn agenda ehangach tlodi a thynnu sylw at farn plant. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan fod trafodaethau ynghylch tlodi yn aml yn gallu cael eu cyfeirio tuag at oedolion.**
- **Mynd ati'n rhagweithiol i annog a chefnogi ysgolion i weithio gyda phlant i wneud newid ymarferol yn eu hysgol trwy sefydlu cynlluniau ailgylchu ailddefnyddio gwisg ysgol; mae hyn o fudd i'r amgylchedd ac yn helpu rhieni/gofalwyr i arbed arian.**

>>>

# Safon Byw sy'n Ddigonol

Mae diwedd y cyfnod hwn wedi cyd-ddigwydd â phandemig y Coronafeirws, a fydd yn sicr wedi cael effaith ar bob plentyn. Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd am yr anghydraddoldebau mae plant mewn tlodi yn eu hwynebu, byddan nhw'n arbennig o agored i niwed ar hyn o bryd. Gwaetha'r modd, mae hefyd yn bosibl y byddwn yn gweld mwy o blant a theuluoedd yn cael eu gwthio i dlodi o ganlyniad i golli swyddi a lleihau oriau gwaith.

## Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Rwyf wedi bod mewn cysylltiad â'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch y maes polisi hwn ar hyd y cyfnod, gan mai dyma'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gydlynu mesurau i liniaru tlodi plant. Ym mis Hydref 2019 fe ges i drafodaeth ar y cyd hefyd gyda hi a Phrif Weinidog Cymru ynghylch argymhellion yr adroddiad a chyllidebu ar gyfer tlodi plant.

Fe fues i hefyd mewn trafodaeth ddisgyrsiol gan gabinet Llywodraeth Cymru ar y mater hwn ym mis Tachwedd 2019. Dyma'r tro cyntaf i mi gael gwahoddiad i gymryd rhan mewn cyfarfod o'r fath.

Ochr yn ochr â'r gweithgaredd hwn mae fy swyddfa wedi parhau i ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru a darparu ymateb ysgrifenedig ym mis Ionawr 2020 i alwad Llywodraeth Cymru am dystiolaeth ynghylch eu hadolygiad tlodi plant. Nododd Adroddiad Cynnydd Tlodi Plant y Llywodraeth, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019, hyn fel darn allweddol o waith o ran llywio camau nesaf y Llywodraeth.

Yn ystod y cyfnod hwn rwyf hefyd wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ynghylch eu Hymchwiliad i Fudd-daliadau yng Nghymru (Ebrill 2019) a darparu tystiolaeth lafar i ymchwiliad Tlodi Tanwydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ym mis Ionawr 2020.

>>>

# Safon Byw sy'n Ddigonol

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn rwyf wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol yn eu hannog i ystyried canfyddiadau'r adroddiad Siarter ar gyfer Newid a'r argymhellion a gyfeiriwyd atynt. Un enghraifft gadarnhaol oedd yn deillio o hyn oedd bod Sir y Fflint wedi penderfynu y dylai pob ysgol ddefnyddio fy adnodd 'Cofia Ceri' fel un o'u tri nod ar gyfer taclo tlodi eleni.

Yn ystod eleni rwyf wedi croesawu sawl newid sy'n adlewyrchu galwadau yn fy adroddiad. Mae hynny'n cynnwys ehangu'r cynllun mynediad i'r Grant Datblygu Disgyblion, cyflwyno cynnyrch hylendid am ddim mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach a'r peilot gwaith chwarae newyn gwyliau. Mae cyllideb y Llywodraeth ar gyfer 2019/2020 hefyd yn cyfeirio at estyn cynllun brecwast ysgol am ddim ym mis Medi 2020 ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd sydd ym mlwyddyn 7 ac yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Fodd bynnag, mae absenoldeb cynllun cyflawni trawslywodraethol ar gyfer tlodi plant yn siom ac mae'n golygu ei fod yn dal yn her i mi ddeall a chraffu ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran taclo tlodi plant mewn perthynas â galwadau eraill rwyf wedi'u gwneud, megis cofrestru'n awtomatig ar gyfer prydau ysgol am ddim ac estyn cymhwysedd i'w derbyn.

Bydd angen i ymateb y Llywodraeth i dlodi plant gymryd i ystyriaeth effaith pandemig y Coronafeirws, ond ni fydd rhai o'r heriau sy'n wynebu plant a theuluoedd o reidrwydd yn rhai newydd; yn hytrach byddant wedi cael eu gwaethygu. Rwy'n credu ei fod yn bwysicach nawr nag erioed bod gan Lywodraeth Cymru strwythur a chynllun trawslywodraethol, gyda chamau i daclo tlodi plant yn y tymor byr i ganolig.

## Beth sydd angen digwydd nesa?

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau'r Adolygiad Tlodi Plant maen nhw wedi'i gwblhau, a nodi sut bydd y canfyddiadau'n cael eu troi'n gamau pendant sy'n creu gwelliannau amlwg i fywydau plant.

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## IECHYD MEDDWL A LLESIANT

Mae iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i'r Comisiynydd ar hyd ei chyfnod yn y swydd. Mae plant a phobl ifanc yn dweud wrthyn ni'n gyson bod hynny'n flaenoriaeth iddyn nhw hefyd. Dangosodd canlyniadau ein hymgynghoriad Beth Nawr gyda mwy na 10,000 o blant a phobl ifanc a rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol fod iechyd a llesiant emosiynol, pryder ynghylch profion/arholiadau a bwlio yn brif bryderon.

Mae'r pandemig byd-eang wedi rhoi ffocws pendant ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc yn fater sy'n cael ei godi'n gyson gyda swyddogion fy nhîm Ymchwiliadau a Chyngor. Mae plant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn dweud wrthyn ni'n gyson bod plant a phobl ifanc yn cael clywed nad yw'r gefnogaeth angenrheidiol ar gael iddyn nhw pan fyddan nhw'n estyn allan am gymorth. Yn achos y bobl ifanc hynny sydd angen gofal preswyl oherwydd anghenion iechyd meddwl, ymddygiadol neu emosiynol, rydyn ni'n pryderu nad yw'r ddarpariaeth angenrheidiol ar gael iddyn nhw, neu nad yw'n cyfateb i'w hanghenion.

Rydw i wedi bod yn gwthio am ddull 'dim drws anghywir' o ymdrin â iechyd meddwl, sy'n golygu os bydd plentyn neu berson ifanc yn gofyn am help, na fyddan nhw'n cael clywed eu bod wedi dod i'r lle anghywir ac yn cael eu hanfon i ffwrdd heb y gefnogaeth angenrheidiol. Mae angen i ni greu mecanwaith cefnogi sy'n ymateb i anghenion y plentyn, yn hytrach na gofyn i blant ffitio i'r gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli.

Roeddwn i'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi estyn rhaglen gwella iechyd meddwl Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP). Mae gwaith diweddar y Rhaglen hon yn galonogol, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Rhaglen ar ei thri llif gwaith: 'cymorth cynnar a chefnogaeth well', 'datblygu'r fframwaith cymorth cynnar a chefnogaeth well a'i fabwysiadu ar lefel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol', a 'dull system gyfan ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â chyflyrau niwroddatblygiadol'.

>>>

# Safon Byw sy'n Ddigonol

Er bod rhaglen T4CYP wedi dangos addewid yn ddiweddar, mae angen gwneud llawer mwy o waith.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cydweinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan o ymdrin â Iechyd Meddwl a Llesiant yn 2018 ac maen nhw wedi cynhyrchu fframwaith drafft er mwyn i ysgolion ac awdurdodau lleol roi dull ysgol gyfan ar waith. Roedden ni'n falch o weld y ddogfen ddrafft hon, ac rydyn ni'n credu ei bod wedi gwella yn sgîl yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

## Beth sydd angen digwydd nesa?

Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r fframwaith dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant ar waith ar draws ysgolion a chymunedau yng Nghymru yn ystod blwyddyn ysgol 2020-21 a dylai fod statws statudol i'r fframwaith hwn.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn cael ei hariannu'n briodol i mewn i 2021-22.

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## PONTIO I WASANAETHAU OEDOLION MEWN CYD-DESTUNAU IECHYD

Ar hyd fy nghyfnod fel Comisiynydd, rwyf wedi clywed gan blant a phobl ifanc a'u teuluoedd wrth iddyn nhw nesáu at eu pen-blwydd yn 18 a symud o wasanaethau iechyd plant i rai oedolion, ac yn rhy aml maen nhw'n dweud wrthyf fi eu bod nhw heb gael eu cefnogi'n briodol i wneud y pontio hwn. Rwyf hefyd wedi clywed gan bobl ifanc sy'n cael mynediad i wasanaethau iechyd am y tro cyntaf yn 16 neu'n 17 oed, a bod y gwasanaethau iechyd yn ansicr yn eu hachos nhw a ddylen nhw dderbyn gofal gan y gwasanaethau pediatrig neu wasanaethau oedolion.

### Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Eleni rwyf fi wedi trefnu cyfarfodydd rhwng y Colegau Brenhinol, y Byrddau Iechyd, cynrychiolwyr o'r trydydd sector a Llywodraeth Cymru i drafod y materion sy'n ymwneud â phontio i wasanaethau oedolion. Roeddwn i'n falch bod hynny wedi arwain at sefydlu Bwrdd Prosiect yn 2019 ac wedi hynny at gyhoeddi canllawiau drafft ar gyfer ymgynghori. Roeddwn i hefyd yn arbennig o falch o weld bod cyfeiriadau rheolaidd at hawliau plant ar hyd y ddogfen, a'u bod yn llywio'r egwyddorion sydd ynddi.

Mae gen i bryderon ynghylch sut bydd y canllawiau hyn yn cael eu gweithredu, gan nad yw'r canllawiau drafft yn dangos yn eglur sut bydd hynny'n digwydd. Mae hynny'n creu risg na fydd yn newid profiad plant a phobl ifanc ac oedolion ifanc yr ydyn ni'n gwybod nad ydyn nhw ar hyn o bryd yn cael y dull gweithredu amlasiantaeth angenrheidiol, gyda rheolaeth sensitif, i'w helpu i fynd trwy'r broses o symud o wasanaethau plant i rai oedolion mor llyfn â phosibl. Bydd rhaid aros i weld hefyd a fydd y canllawiau'n arwain at wella'r berthynas rhwng gwasanaethau plant ac oedolion, lle maent yn gyfrifol ar y cyd am ofal person ifanc; ac a fydd y canllawiau'n arwain at roi cyfrifoldeb i unigolyn/unigolion sicrhau nad yw gofal pobl ifanc yn 'methu symud ymlaen'.

>>>

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## Beth sydd angen digwydd nesa?

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y canllawiau newydd ar bontio ym maes iechyd yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd y tymor Senedd hwn. Rhaid i'r canllawiau hyn gynnwys cyfarwyddiadau cliriach ar sut mae Byrddau Iechyd i weithredu hyn, fel nad yw'n dod yn 'waith i bawb a neb'. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y canllawiau newydd yn cael eu cyfathrebu'n glir i fyrddau iechyd fel bod arweiniad ar hyn ym mhob Bwrdd. Dylai'r llywodraeth nesaf adolygu cynnydd Byrddau ar yr agenda hon yn rheolaidd.

Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd ystyried canfyddiadau'r adolygiad o'r dystiolaeth ar wasanaethau iechyd meddwl i bob oed, a phenderfynu sut gall y canfyddiadau hyn helpu i ymdrin â'r pontio i wasanaethau oedolion ar draws maes iechyd.

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## EIRIOLAETH GYSYLLTIEDIG Â IECHYD

Er bod gan blant a phobl ifanc hawl statudol yng Nghymru i gael mynediad at eiriolydd proffesiynol annibynnol os byddan nhw'n bodloni rhai meini prawf mewn perthynas â'u gofal cymdeithasol neu eu hiechyd meddwl, nid oes gan blant a phobl ifanc yr un hawl i eiriolaeth mewn perthynas â chael mynediad at ofal iechyd cyffredinol.

Lle mae gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc ar gael mewn cyd-destunau iechyd, rwy'n pryderu nad yw'r rhain yn cael eu hysbysebu'n dda, ac mai ychydig o blant a phobl ifanc a allai elwa o'r eiriolaeth sy'n cael cyfle i'w defnyddio. Rwyf hefyd yn ymwybodol nad yw pob bwrdd iechyd yn darparu cynnig o gefnogaeth sydd mor agored i bobl ifanc o dan 18.

### Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Mewn ymateb i'm cyfarfodydd gyda'r Gweinidog a gohebiaeth ar y mater hwn, yn 2019, sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp oedd yn cyfuno cynrychiolwyr Byrddau Iechyd, darparwyr eiriolaeth, a chynrychiolwyr trydydd sector i gynllunio ffordd ymlaen ar gyfer eiriolaeth gysylltiedig â iechyd. Perchnogodd y grŵp yr egwyddorion y cytunwyd arnyn nhw gan y rhai oedd yn bresennol yn fy Seminar Iechyd Plant blynyddol yn haf 2019, ond rwy'n siomedig nad yw'r gwaith hwn eto wedi arwain at gyflwyno canllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru. Mae consensws cryf ymhlith aelodau'r grŵp hwn ar yr egwyddorion creiddiol hyn o ran eiriolaeth mewn gofal iechyd i blant, ond mae angen i'r canllawiau gynnwys mwy na dim ond egwyddorion os ydyw i greu newidiadau cadarnhaol a mynediad i bob plentyn sydd angen y gefnogaeth hon ledled Cymru.

>>>

# Safon Byw sy'n Ddigonol

Mae'r dogfennau contractiol ar gyfer eiriolaeth ranbarthol ym maes gofal cymdeithasol i blant yn caniatáu comisiynu elfen iechyd ychwanegol, felly mae'r gwaith sylfaenol eisoes yn ei le ar gyfer comisiynu eiriolaeth iechyd. Ond bydd angen cyllid a chefnogaeth cyson gan y byrddau iechyd ym mhob ardal i sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn cael ei hariannu, ei chefnogi a'i gweithredu'n briodol.

## Beth sydd angen digwydd nesa?

Dylai Llywodraeth Cymru ddrafftio ac ymgynghori ar ganllawiau sy'n nodi'n glir ddisgwyliad y llywodraeth bod pob Bwrdd Iechyd yn cynnig gwasanaeth eiriolaeth annibynnol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sydd angen hynny. Dylai fod gan y canllawiau statws statudol.

# Safon Byw sy'n Ddigonol

## EFFEITHIOLRWYDD BYRDDAU PARTNERIAETH RHANBARTHOL O RAN INTEGREIDDIO IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL I BLANT AG ANGHENION CYMHLETH

Cyrff a sefydlwyd i gyfuno gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yw Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, i sicrhau eu bod nhw'n cydweithio i ymateb i anghenion dinasyddion yr ardal.

### Sut rydyn ni wedi dylanwadu

Yn ystod 2019/20, fe wnes i ymweld â phob un o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru i ofyn iddyn nhw beth maen nhw eisoes yn ei wneud neu pa gynlluniau sydd ganddyn nhw ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio'n well i wella profiad plant ag anghenion cymhleth. Mae'r canllawiau statudol yn golygu ei fod yn ofynnol iddyn nhw greu darpariaeth benodol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, ond roedd y gwaith achosion a ddaeth i'm swyddfa yn awgrymu bod y diffiniad hwn yn cael ei ddehongli'n llythrennol iawn, ac yn cwmpasu plant ag anableddau cymhleth a chyflyrau iechyd lluosog lle bu diagnosis yn unig.

Wedi'r ymweliadau hyn, lluniodd fy nhîm adroddiad ar effeithiolrwydd partneriaethau rhanbarthol wrth integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, sef **'Dim Drws Anghywir – dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant'**. Cyflwynodd yr adroddiad hwn argymhellion i Lywodraeth Cymru ac i'r BPRhau eu hunain i wella'u ffocws ar faterion plant a phobl ifanc, gallu gwasanaethau i gydweithio ar yr agenda hon, a sut maen nhw'n cynnwys plant a phobl ifanc a'r oedolion sy'n gofalu amdanyn nhw.

>>>

# Safon Byw sy'n Ddigonol

Rydyn ni'n gwybod nad yw Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ers eu sefydlu, wedi canolbwyntio'n ddigonol ar anghenion plant a phobl ifanc, nac wedi ymrwymo adnoddau yn yr un modd ag ar gyfer y boblogaeth oedolion.

Darparodd Llywodraeth Cymru amrywiol lifoedd ariannu i annog gwaith y BPRhau i gynnwys plant a phobl ifanc, ac mae'n galonogol gweld bod hyn wedi arwain at welliannau mewn rhai rhanbarthau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ddiweddar wedi diweddaru'r canllawiau i FPRhau sy'n annog mwy o gyfranogiad gan blant a phobl ifanc yng ngwaith y Byrddau, crynhoi adnoddau rhwng gwasanaethau, a gwaith ar wella profiad plant a phobl ifanc sy'n symud o wasanaethau plant i rai oedolion ym maes gofal cymdeithasol.

## Beth sydd angen digwydd nesa?

Dylai Llywodraeth Cymru a'r holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru ystyried ac ymateb i argymhellion adroddiad 'Dim Drws Anghywir' y Comisiynydd. Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd a chefnogaeth i FPRhau ddatblygu strategaeth a fydd yn gweithio'n well gyda phlant a phobl ifanc ac ar eu cyfer.

# Crynodeb o'r argymhellion

Mewn ymateb i'r materion y soniwyd amdanynt yn yr adroddiad blynyddol hwn, rwy'n crynhoi yma'r argymhellion sy'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae ein hasesiad o gynnydd Llywodraeth Cymru yn erbyn argynhellion y llynedd ar gael ar ein gwefan yma. Rydyn ni'n diweddaru'r asesiad hwn bob chwarter, cyn cyfarfod y Comisiynydd gyda'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

# Crynodeb o'r argymhellion

## Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

1. Ar ôl adolygu llety diogel ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ar frys i sefydlu darpariaeth breswyl newydd amlasiantaeth, wedi'i chomisiynu ac ag adnoddau, yng Nghymru, i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.

2. Mae rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod mynediad estynedig at Ymgynghorwyr Personol yn dod yn rhywbeth statudol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod modd i bawb sy'n gadael gofal barhau i gael mynediad at ymgynghorydd personol, hyd at 25 oed, rydyn ni'n gwybod bod amrywiadau yn sut mae hynny'n cael ei estyn a'i gyflwyno. Byddai gwneud yr hawl yma'n statudol hyd at 25 oed yn diogelu'r gwasanaeth cefnogi hanfodol hwn wrth symud ymlaen.

3. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut mae modd datblygu cyfleoedd i fyw'n lled-annibynnol neu â chymorth ar gyfer ymadawyr gofal sydd ddim eisiau, neu sy'n methu cael mynediad i leoliadau "Pan Fydda i'n Barod". Byddai hynny'n sicrhau bod pobl ifanc, pa fath bynnag o leoliad sydd ganddynt, yn gallu cael mynediad at gefnogaeth barhaus y tu hwnt i 18 oed.

4. Mae rhaid i Lywodraeth Cymru ddiwygio "rhianta corfforaethol" fel bod cyfrifoldeb ar bob sefydliad cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau'r gorau i blant sy'n methu byw gyda'u teuluoedd bellach.

5. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Protocol Cymru Gyfan sy'n ymrwymo i atal troseddoli plant mewn gofal yn ddiangen, i gyd-fynd â gwaith sy'n parhau gan awdurdodau lleol, yr heddlu ac eraill i wreiddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau ac yn cael ei arwain gan drawma yn eu gwaith.

6. Dylai Llywodraeth Cymru a Phartneriaid Cyfiawnder Ieuenctid wneud cynnydd ar frys yn y Tymor Senedd hwn tuag at yr uchelgeisiau a'r camau gweithredu a nodwyd yn y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn sicrhau bod modd i Gymru ddiwygio sut mae'n cyflwyno gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid er mwyn ymateb yn well i anghenion plant agored i niwed yng Nghymru.

# Crynodeb o'r argymhellion

## Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais

7. Mae angen i Lywodraeth Cymru ailddechrau gweithio ar y canllawiau statudol Ecsbloetio Plant yn Rhywiol (CSE) cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau bod darlun cenedlaethol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio i lywio'r cynllunio a'r penderfyniadau a wneir yn y tymor Senedd hwn.

## Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

8. Dylai Llywodraeth Cymru roi i CPC y manylion maen nhw wedi'u cael trwy'r gyfres o ohebiaeth a nodwyd uchod ynghylch trefniadau pob awdurdod lleol ar gyfer ymchwiliadau annibynnol i honiadau o gam-drin plant a wnaed yn erbyn staff addysgu.

9. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau eglurder yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer sicrhau bod ysgolion a chyrff llywodraethu yn dilyn gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo 2020 i staff ysgolion: canllawiau diwygiedig ar gyfer cyrff llywodraethu ac os bydd angen, cymryd camau i sicrhau bod y cyrff hynny'n cael gwybod yn glir beth yw'r trefniadau ym mhob ardal awdurdod lleol.

10. Mae'n rhaid gosod y côd ymarfer ADY a ailddrafftiwyd ac y bu oedi yn ei gylch gerbron y Senedd er mwyn symud ymlaen i weithredu Deddf 2018. Mae hefyd yn hanfodol nad yw'r buddsoddi ychwanegol yn y sector ADY yn ddigwyddiad untro, ac mae'n rhaid i hyn barhau wrth i'r system newydd ddatblygu er mwyn sicrhau ei llwyddiant.

11. Dylai Llywodraeth Cymru newid y fframwaith rheoliadol yng nghyswllt ysgolion annibynnol a Chyngor y Gweithlu Addysg i gynnwys gofyniad bod yr holl staff addysgu a'r holl arweinwyr ysgol mewn lleoliadau annibynnol yn cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC).

# Crynodeb o'r argymhellion

## Safon Byw sy'n Ddigonol

12. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau'r Adolygiad Tlodi Plant maen nhw wedi'i gwblhau, a nodi sut bydd y canfyddiadau'n cael eu troi'n gamau pendant sy'n creu gwelliannau amlwg i fywydau plant.

13. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r fframwaith dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant ar waith ar draws ysgolion a chymunedau yng Nghymru yn ystod blwyddyn ysgol 2020-21 a dylai fod statws statudol i'r fframwaith hwn.

14. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn cael ei hariannu'n briodol i mewn i 2021-22.

15. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y canllawiau newydd ar bontio ym maes iechyd yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd y tymor Senedd hwn. Rhaid i'r canllawiau hyn gynnwys cyfarwyddiadau cliriach ar sut mae Byrddau Iechyd i weithredu hyn, fel nad yw'n dod yn 'waith i bawb a neb'. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y canllawiau newydd yn cael eu cyfathrebu'n glir i fyrddau iechyd fel bod arweiniad ar hyn ym mhob Bwrdd. Dylai'r llywodraeth nesaf adolygu cynnydd Byrddau ar yr agenda hon yn rheolaidd.

16. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd ystyried canfyddiadau'r adolygiad o'r dystiolaeth ar wasanaethau iechyd meddwl i bob oed, a phenderfynu sut gall y canfyddiadau hyn helpu i ymdrin â'r pontio i wasanaethau oedolion ar draws maes iechyd.

17. Dylai Llywodraeth Cymru ddrafftio ac ymgynghori ar ganllawiau sy'n nodi'n glir ddisgwyliad y llywodraeth bod pob Bwrdd Iechyd yn cynnig gwasanaeth eiriolaeth annibynnol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sydd angen hynny. Dylai fod gan y canllawiau statws statudol.

18. Dylai Llywodraeth Cymru a'r holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru ystyried ac ymateb i argymhellion adroddiad 'Dim Drws Anghywir' y Comisiynydd. Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd a chefnogaeth i FPRhau ddatblygu strategaeth a fydd yn gweithio'n well gyda phlant a phobl ifanc ac ar eu cyfer.

# Tu hwnt i 2021

Rwyf wedi cyhoeddi fy ngalwadau i bob plaid wleidyddol eu hystyried ar gyfer eu galwadau maniffesto etholiad 2021. Cewch hyd i'r ddogfen honno yma.

Yn 2021 bydd pobl ifanc 16 ac 17 oed yn cael cyfle i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd am y tro cyntaf. Mae hon yn garreg filltir gyffrous, ac rwyf wedi cyhoeddi fy ngalwadau maniffesto ar ffurf fersiwn i blant, gan fy mod i'n annog pob plaid i gynhyrchu eu maniffestos mewn fformat hygyrch. Bydd hynny o fudd i blant a phobl ifanc, i ennyn eu diddordeb yn y system yn ifancach, ond hefyd i'r rhai sydd heb ddeall llawer o bosib ar y setliad datganoli a meysydd cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru.

Dylid annog ehangu mynediad i'r broses, a gall hynny gychwyn yn gynharach na'r rhai sydd wedi caffael pleidlais trwy gyrraedd 16 oed. Yng ngoleuni hyn byddaf fi hefyd yn gweithio yn 2020-21 i gyflenwi gwaith Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd, er mwyn ennyn diddordeb plant 11+ oed yn system wleidyddol a phleidleisio Cymru, a'u cynnwys mewn proses etholiadol baralel.




# Prosesau sefydliadol

# Prosesau sefydliadol

Fel swyddfa gyhoeddus sy'n derbyn arian cyhoeddus, mae'r Comisiynydd yn ymroddedig i weithredu systemau atebolrwydd a phenderfyniadau sy'n drylwyr ac yn dryloyw. Lluniwyd ein fframwaith gwerthuso i ddarparu trosolwg o'n gwaith craidd a'r prosesau mewnol a geir yn y sefydliad. Mae'n canolbwyntio ar bedair elfen: pobl y Comisiynydd, prosesau sefydliadol y Comisiynydd, cynaliadwyedd ariannol y Comisiynydd a gwerth am arian, a phlant a phobl ifanc Cymru. Byddwch chi'n gallu darllen am ddwy o'r pedair elfen – ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc a chynaliadwyedd ariannol – mewn rhannau eraill o'r adroddiad, ac isod rydyn ni wedi cynnwys uchafbwyntiau o ran pobl y Comisiynydd a phrosesau sefydliadol. Mae ein Datganiad Llywodraethu ar ein datganiad Llywodraethu ar ein gwefan (o dan 'Cyhoeddiadau'). ymlaen hefyd yn cyffwrdd ag elfennau o'r cylch gwerthuso hwn.

# Prosesau sefydliadol



# Pobl y Comisiynydd

## Hyfforddiant

Bu cynrychiolwyr o bob rhywedd a'r rhan fwyaf o raddau a mathau o gontract yn cyrchu cyfleoedd dysgu a datblygu eleni. Yn ogystal a cheisiadau dysgu unigol, mae ein rhaglen ddatblygu i'r tim cyfan yn golygu bod gweithwyr rhan amser, gweithwyr dros dro a gweithwyr a nodweddion gwarchodedig yn cael mynediad cyfartal at gyfleoedd dysgu a datblygu.

## Salwch

Canran gronnol 2019|20 yw 4.1% (ffigwr 2018|19 oedd 5.45%).

## Proffil y gweithlu a phroffil cyflog cyfartal ar gyfer y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020

**Mae'r adran hon o'n hadroddiad yn amlinellu ystadegau amrywiaeth ein gweithlu.**

Rydyn ni'n annog aelodau o'n Tîm fel mater o drefn i wneud datganiadau amrywiaeth mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf Cydraddoldeb, oherwydd bod yr ystadegau hynny'n ein helpu i nodi camau gweithredu cadarnhaol ar gyfer gwella natur gynhwysol ein gweithle yn barhaus.

Er ein bod ni'n annog aelodau ein Tîm i ddarparu data monitro cydraddoldeb, mae ei gyflenwi yn wirfoddol, a gall unigolion ddewis beth maen nhw am wneud datganiad yn ei gylch. Ar gyfartaledd mae rhwng 1 a 5 o bobl yn dewis yr opsiwn 'mae'n well gen i beidio â datgelu' ar gyfer pob nodwedd cydraddoldeb.

Tîm bach ydyn ni, yn cyflogi ar gyfartaledd 26 o bobl mewn rolau amser llawn a rhan amser. Er ein bod ni'n cydnabod pwysigrwydd rhannu ein hystadegau amrywiaeth mae cyfyngiadau ar lefel y manylion y gallwn ni eu rhannu er mwyn parchu hawliau diogelu data ein cydweithwyr.

# Pobl y Comisiynydd

## 1. Amrywiaeth cyffredinol y gweithlu

Ar 31 Mawrth 2020 roedd 26 o bobl yn cael eu cyflogi gan y sefydliad. Yn ystod 2019/20, gadawodd 6 pherson y Tîm, a chafwyd 7 penodiad newydd, yn gyfuniad o staff parhaol a thros dro.

At ei gilydd, nid oedd newid sylweddol yn amrywiaeth y Tîm yn ystod 2019/20. Y prif newid yw gweithlu rywfaint yn iau, ac mae gennym ni rywfaint yn fwy o gynrychiolaeth o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yng Nghymru yn y cyfnod hwn (er bod tangynrychiolaeth o hyd).

**I grynhoi ar 31 Mawrth 2020:**

- **Roedd 81% o'n gweithlu yn fenywaidd; mae hyn yr un fath â'r llynedd ac yn cynrychioli dirywiad cyffredinol yn ein cydbwysedd rhywedd ers i ni ddechrau adrodd am yr ystadegau hyn yn 2015. Mewn cymhariaeth, mae 51% o boblogaeth Cymru yn fenywaidd.**
- **Mae 65% o'n cydweithwyr yn gweithio oriau amser llawn, a 30% yn gweithio oriau rhan amser. Dim ond 12.5% o'r gweithwyr rhan amser sy'n wrywaidd.**
- **Ar 31 Mawrth roedd 11% o'n gweithlu wedi'u cyflogi ar sail dros dro neu dymor byr.**
- **Mae 45% o'n cydweithwyr yn y cyfnod hwn o dan 35 oed, mae hyn rywfaint yn uwch na'r llynedd pan oedd 38% o'n gweithlu o dan 35 oed. Dim ond 20% o'r grŵp oed yma sy'n gweithio'n rhan amser.**
- **Mae 12% o'n cydweithwyr dros 55 oed, tua'r un fath â'r llynedd; ar hyn o bryd dydyn ni ddim yn cyflogi neb dros 65 oed.**

>>>

# Pobl y Comisiynydd

- Ni ddatgelodd neb yn y Tîm hunaniaeth drawsrywedd, deurywedd na rhywedd hylifol yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae 7% o'n gweithlu yn disgrifio'u hunain fel rhai sy'n byw gydag anabledd; o gymharu â 22.5% o weithlu Cymru.
- Mae 4% o'n gweithlu yn dod o grŵp ethnig lleiafrifol; o gymharu â 5.9% o boblogaeth Cymru.
- Roedd 33% o'n gweithlu yn datgan ymrwymiad i grefydd neu gred benodol.
- Ni ddatgelodd neb yn y Tîm gyfeiriadedd lesbiaidd, hoyw na deurywiol, a gwnaeth 73% o'r ymatebwyr gwirfoddol ddatganiad eu bod yn wahanrywiol.
- Yn ystod 2019/2020 doedd neb yn feichiog nac ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu.
- Bu cynrychiolwyr o bob rhywedd a'r rhan fwyaf o raddau a mathau o gontract yn cyrchu cyfleoedd dysgu a datblygu eleni. Yn ogystal â cheisiadau dysgu unigol, mae ein rhaglen ddatblygu i'r tîm cyfan yn golygu bod gweithwyr rhan amser, gweithwyr dros dro a gweithwyr â nodweddion gwarchodedig yn cael mynediad cyfartal at gyfleoedd dysgu a datblygu.

# Pobl y Comisiynydd

## 2. Differynnau Rhywedd a Chyflog

Mae'r System Gwerthuso a Graddio Swyddi sy'n sylfaen ar gyfer system gyflogau CPC yn dyrannu bandiau i swyddi unigol ar sail saith ffactor gwaith gwahanol: ymreolaeth, datrys problemau, gwneud penderfyniadau, effaith, rheoli adnoddau, cysylltiadau a chyfathrebu, gwybodaeth a sgiliau. Mae'r system hon yn sicrhau bod gwahaniaethau yng nghyflogau swyddi yn ymwneud â gofynion penodol swyddi ac yn cyfrannu at ein hymrwymiad i ddileu tueddiadau yn y broses recriwtio.

O'r 21 o staff benywaidd oedd yn eu swyddi ar 31 Mawrth 2020, mae 4 aelod benywaidd o staff, neu 14% o'r gweithlu benywaidd, yn cael eu cyflogi yn y tri band cyflog uchaf, o gymharu â 2 aelod gwrywaidd o staff, neu 40% o'r gweithlu gwrywaidd.

Er bod y nifer llai o gyflogeion gwrywaidd yn llenwi nifer anghymesur o rolau uwch yn y gweithlu cyfan, mae cydbwysedd rhywedd y Tîm Rheoli yn cynnwys mwy o aelodau benywaidd o staff, gyda 4 aelod benywaidd a 2 aelod gwrywaidd.

Mae cyfran fwyaf ein gweithlu yn dal yn staff benywaidd, ond cyflog cyfartalog gweithwyr benywaidd ar 31 Mawrth 2020 oedd £32,662 a chyflog cyfartalog gweithwyr gwrywaidd oedd £39,158. Mae gwahaniaeth o £6,496 eleni.

Dim ond aelodau staff benywaidd sydd ar y band cyflog isaf yn CPC, ac mae hynny, ar ben y gostyngiad yn nifer yr aelodau staff gwrywaidd y llynedd, o 8 i 5 o bobl, recriwtio interniaid graddedig benywaidd ar y radd gyflogi isaf a'r ffaith bod mwyafrif y gweithwyr rhan amser yn fenywaidd, i gyd yn cyfrannu at y differyn cyflog cyfartalog.

O'r 21 o weithwyr benywaidd oedd yn cael eu cyflogi ar 31 Mawrth 2020, mae traean yn llenwi rolau rhan amser (33% o'r gweithlu benywaidd neu 7 o bobl) o gymharu ag un cyflogai gwrywaidd yn unig (20% o'r gweithlu gwrywaidd).

## 3. Beth rydyn ni'n ei wneud i gynnal gweithlu amrywiol a hybu sefydliad cynhwysol?

Rydyn ni'n credu bod manteision busnes gwirioneddol i gyflogi a chadw gweithlu amrywiol.

Rydyn ni'n cyflogi pobl o bob ystod oed heblaw'r rhai dros 65, ond rydyn ni'n dal yn ymroddedig i alluogi cyflogeion i barhau i weithio ar ôl cyrraedd 65 oed. Yn dibynnu ar y cynllun pensiwn dan sylw, gall rhai aelodau staff hawlio'u buddion pensiwn llawn yn 60 oed, a gallai hynny effeithio ar ein proffil oed. Fodd bynnag, fel aelodau o gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil rydyn ni'n cefnogi ystod o opsiynau rhagorol pan fydd staff yn cyrraedd oed pensiwn, gan gynnwys ymddeoliad rhannol ac ymddeoliad cynnar.

Ar hyn o bryd rydyn ni'n cyflogi mwy o fenywod na dynion ac ychydig o bobl sy'n byw gydag anabledd neu'n dod o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol. Mae bod yn ymwybodol o'r ystadegau hyn yn golygu y byddwn ni'n parhau â'n polisi o recriwtio'n allanol ar gyfer pob swydd barhaol, ac yn defnyddio camau cadarnhaol i ddenu ymgeiswyr o grwpiau a dangynrychiolir, er enghraifft targedu hysbysebion swyddi mewn cyfryngau penodol, defnyddio hysbysebion wedi'u geirio'n ofalus i ddenu pobl â rhywedd gwahanol, a chynyddu'r defnydd o'n sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio fformatau hygyrch fel clipiau fideo i hysbysebu swyddi gwag ac annog ceisiadau fideo. Mae ein cyfleoedd i interniaid yn cael eu talu ar lefel uwchlaw'r Cyflog Byw er mwyn sicrhau eu bod nhw'n parhau'n hygyrch i bawb.

Byddwn ni'n parhau i sicrhau bod gennym ni baneli cyfweld amrywiol gyda chynrychiolaeth deg o ran rhywedd, ac yn cynnwys plant a phobl ifanc o'n panel ymgynghori amrywiol. Rydyn ni'n ddiweddar wedi ehangu ymwneud pobl o rolau iau yn y Tîm â'n prosesau dethol. Mae hynny nid yn unig yn gwella tegwch ein prosesau ond yn buddsoddi yn natblygiad aelodau iau o'r Tîm, ac o bosib yn annog mwy o weithwyr benywaidd i geisio dyrchafiad a rhoi hwb i'w gyrfa.

Rydyn ni hefyd yn defnyddio profion recriwtio fel rhan o'n prosesau recriwtio i gyfyngu cymaint â phosib ar dueddiadau a sicrhau ein bod yn penodi ar sail rhinwedd.

>>>

# Pobl y Comisiynydd

Byddwn ni'n parhau i sicrhau bod yr holl staff, gan gynnwys gweithwyr dros dro, yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'u Rheolwr Llinell lle gallan nhw drafod datblygiad cynllun datblygu personol wedi'i deilwra sy'n cyd-fynd â'u maes gwaith neu eu hamcanion gwaith. Mae'r cyfarfodydd rheolaidd hyn hefyd yn cynnwys 'gwiriadau' llesiant fel eitem sefydlog.

Byddwn ni'n parhau i ddarparu mynediad at drefniadau gweithio hyblyg i'n holl gydweithwyr. Ar hyn o bryd mae hynny'n cynnwys gweithio gartre, oriau rhan amser, a chywasgu oriau. Rydyn ni'n awyddus i ddatblygu patrymau eraill hyblyg ac ymateb yn unigol i bobl wrth i'w hanghenion newid.

Rydyn ni'n cynnig polisïau cyflogaeth hyblyg i gefnogi a darparu cyflog ac absenoldeb gwell ar gyfer sefyllfaoedd mabwysiadu, mamolaeth a thadolaeth.

# Ein Prosesau

## Ein gwaith yn gweithredu Safonau'r Gymraeg

### Deddf yr Iaith Gymraeg

Mae'r wybodaeth ganlynol yn darparu manylion am sut mae Comisiynydd Plant Cymru wedi cydymffurfio ag adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n gofyn ei bod yn glynu at gyfres o safonau ar gyfer y Gymraeg a osodwyd ar gyfer ein swyddfa gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2016.

### Sut rydyn ni wedi cydymffurfio â'r Ddeddf

Rydyn ni'n hyrwyddo'r Gymraeg ac egwyddorion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhagweithiol, ac wedi rhoi mesurau strwythurol ar waith i sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r Comisiynydd wedi dynodi aelod o'i thîm rheoli i arwain y gwaith o gydymffurfio â'r holl ofynion o ran deddfwriaeth cydraddoldeb a'r Gymraeg.

**Yn ystod y cyfnod adrodd cyfredol mae'r swyddfa wedi:**

- **Parhau i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yng nghyfarfodydd misol y tîm rheoli.**
- **Gwella sgiliau Cymraeg y gweithlu. Mae cyfleoedd dysgu wedi cael eu darparu i'r staff yn ôl lefel eu sgiliau. Mae'r staff wedi gallu cael mynediad at gefnogaeth fewnol ac allanol i ddatblygu eu Cymraeg.**
- **Mynychu gweithdy Comisiynydd y Gymraeg ar benderfyniadau Polisi a gweithrediadau mewnol.**

**Nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (Safon 145) –**
Ar 31 Mawrth 2020 roedd 26 aelod o staff yn cael eu cyflogi yn swyddfa'r Comisiynydd. O'r 26 o bobl oedd yn cael eu cyflogi yn ystod y cyfnod hwnnw roedd:

**10 yn disgrifio'u hunain fel rhai sy'n rhugl yn y Gymraeg.**
**4 yn disgrifio'u hunain fel rhai â sgiliau lefel uwch yn y Gymraeg.**
**3 yn disgrifio'u hunain fel rhai â sgiliau lefel ganolraddol yn y Gymraeg.**
**0 yn disgrifio'u hunain fel rhai â sgiliau lefel sylfaenol yn y Gymraeg.**
**9 yn disgrifio'u hunain fel rhai sy'n methu siarad Cymraeg/sydd â Chymraeg lefel mynediad**

>>>

# Ein Prosesau

**Nifer y cyflogeion a fu'n mynychu cyrsiau hyfforddi a gynigion ni yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn (Safon 146) –**

Er mwyn helpu'r staff i wella'u sgiliau Cymraeg, fe wnaethon ni gomisiynu cyrsiau hyfforddi wedi'u teilwra ar gyfer y Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn, a thalu i rai aelodau o staff ddysgu Cymraeg tu allan i'r gweithle.

Bu dau aelod o'r tîm yn mynychu cyrsiau preswyl lefel uwch wythnos o hyd ar gyfer y Gymraeg yn y Gweithle, ac mae hynny wedi cael effaith sylweddol ar eu defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol a thrwy ymgysylltiad allanol. Cefnogodd y sefydliad y cyrsiau hyn trwy ganiatáu amser o'r gwaith er mwyn mynychu ac ymgysylltu'n llawn.

**Nifer y swyddi newydd a gwag y buon ni'n eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle:**

- **Roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol –** UUn swydd Cynorthwy-ydd Cyfathrebu parhaol, un swydd Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor parhaol, ac un swydd Swyddog Cyfranogaeth parhol.
- **Roedd angen dysgu sgiliau Cymraeg wrth benodi i'r swydd –** Dim
- **Roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol –** Dwy swydd intern graddedig.
- **Doedd sgiliau Cymraeg ddim yn angenrheidiol –** Dim.

**Nifer y cwynion a gafwyd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â chydymffurfio â'r safonau gweithredol roedden ni o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw** – 1, a gafodd ei datrys yn llwyddiannus yng ngham 1 o'n proses gwynion. Diweddarwyd gweithdrefn fewnol o ganlyniad i'r gŵyn.

### Ein gwaith yn gweithredu'r Ddyletswydd Cydraddoldeb

Eleni fe wnaethon ni gwblhau cynllun cydraddoldeb strategol 2016-2020 a chytuno ar gynllun strategol newydd ar gyfer 2020-2024, sydd i'w weld **yma**. Dylanwadwyd ar gynllun 2020-2024 gan farn mwy na 10,000 o blant a phobl ifanc 3-18 oed, gan gynnwys 847 o blant 2-7 oed a fu'n cymryd rhan mewn gweithdai oed-briodol. Y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu penodol hwn, wedi'i gyfuno â chanfyddiadau ac argymhellion allweddol perthnasol o Ydy Cymru'n Decach? 2018 sydd wedi helpu i lywio'r gwaith o osod ein hamcanion cydraddoldeb newydd. Mae'r cynnydd yn erbyn yr amcanion hyn yn cael ei adolygu bob chwarter gan dîm rheoli'r Comisiynydd.

## Dyma sut i gysylltu gyda ni:

**Comisiynydd Plant Cymru**
Rhadbost RRGL XLYC BHGC
Abertawe SA7 9FS

**0808 801 1000 /**
**post@complantcymru.org.uk**

**@complantcymru**
**complantcymru.org.uk**



**Comisiynydd Plant Cymru**

Children's Commissioner for Wales